



GWEINI

Yn Gweini'r Sector Gwirfoddol Cristnogol

Maniffesto Cyngghrair Efengylaidd Cymru a Gweini

Ar gyfer etholiadau 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Hydref 2014

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a
Jim Stewart ar j.stewart@eauk.org
neu 07921 080 464

cyngghrair efengylaidd 
yn well gyda'n gilydd

Mynegai Pynciau

Foreword	3
Rhagarweiniad	4
Lloches a Ffoaduriaid	5
Busnes a Mentergarwch	7
Plant a Phobl Ifanc	8
Ymrwymiad Cristnogol yng Nghymdeithas	9
Glanhau Gwleidyddiaeth	11
Troseddu	13
Iaith; Twristiaeth a Hamdden; Diwylliant, Y Celfyddydau a Threftadaeth	16
Anabledd	19
Economeg	20
Addysg	23
Cyflogaeth	25
Newid Amgylcheddol /Newid Hinsawdd	27
Cydraddoldeb	29
Teuluoedd	30
Cyllid a Threthiad	32
Iechyd a Boddhad	33
Tai a Digartrefedd	35
Masnach mewn Pobl	38
Materion Rhyngwladol	41
Cyfiawnder	42
Llywodraeth Leol	44
Y Cyfryngau	46
Iechyd Meddyliol	47
Moesoldeb, Gwleidyddiaeth a Llywodraeth	48
Pobl Oedrannus	49
Adfywiad a Menter Cymdeithasol	50
Gwledig a Ffarmio	53
Cydlyniad Cymdeithasol	55
Chwaraeon	56
Y Trydydd Sector	57
Trafnidiaeth	59

Foreword

Rhagarweiniad

Rydym yn falch iawn i gyflwyno i chi Maniffesto Cynghrair Efengylaidd Cymru a Gweini ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016. Mae'r maniffesto hwn yn sefyll allan ymhlith maniffestos eraill y drydedd sector am ei raddfa ac i ba raddau rydym wedi ymgynghori a'n haelodau. Yn sicr, mae'n ddigynsail ymysg grwpiau ffydd eraill Cymru.

Roedd y 31 o bapurau polisi, a baratowyd yn 2011-12, yn cynnwys pobl o bob oedran a phob cwr o Gymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn ddigon llydan i ni fod yn sicr bod y safbwyntiau hyn yn gynrychiadol o filoedd o bobl yn y wlad.


Er nad ydym wedi cynnwys rhestr gynhwysfawr o enwau'r bobl a gymerodd ran , mae llawer o arbenigwyr sydd â chyfoeth o brofiad wedi cyfrannu, gan gynnwys prif weithredwyr blaenorol neu bresennol a chynghorwyr llywodraeth, i gyd yn annibynnol o bleidiau gwleidyddol .

Ysgrifennwyd y papurau polisi gan 31 o grwpiau ar ol cyfarfodydd unigol yn annibynnol oddi wrth ei gilydd , ac eto rydym yn gweld themâu megis consyn dros gyfiawnder cymdeithasol, cymunedau a'r hymyleiddio yn rhedeg drwyddynt.

Erbyn hyn, mae rhai papurau wedi dyddio i raddau: y papur rhagorol 'Masnachu mewn Pobl' yn un enghraifft o'r fath, yn yr achos hwn ar ôl cael ei ragori gan y Bil Caethwasiaeth Modern. Serch hynny, mae hyd yn oed papurau fel hyn yn dangos bwriad Cristnogion Efengylaidd yng Nghymru i gymryd rhan o ddifrif yn y broses wleidyddol ar draws ystod eang o faterion, gan gynnwys y rhai lle mae Cristnogion yn hanesyddol wedi cymryd rhan (ee Tai a Digartrefedd), a rhai mwy newydd (ee Amgylchedd a Newid Hinsawdd). Rydym yn wirioneddol gredu bod gan Cristnogion Efengylaidd rôl werthfawr i'w chwarae yn nyfodol Cymru ac felly mae'n werth i bleidiau gwleidyddol gymryd yr amser i ddeall ac i ymgysylltu a'r rhan hon o'r eglwys Gristnogol, mae'r niferoedd yn y degau o filoedd yng Nghymru.

Mae'r papur werth ei ddarllen, gan gymryd agwedd hirdymor i broblemau cymdeithasol a dangos pwysigrwydd parhaus ffydd i'r Gymru fodern.

Yn ddiffuant,



Jim Stewart

*Swyddog Materion Cyhoeddus ac Eiriolaeth, Cynghrair Efengylaidd Cymru
Cyfarwyddwr, Gweini*

Lloches a Ffoaduriaid

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – I hybu boddhad emosiynol a iechyd meddyliol ceiswyr loches a ffoaduriaid

Cynigwn fod Llywodraeth Cymru yn ffurfio grŵp ymgynghori o aelodau sefydliadau anllywodraethol, Sefydliadau y Gymuned Ffoaduriaid, chymunedau ffydd a grwpiau eraill sydd yn ymgymryd â chwilwyr am loches a ffoaduriaid ar lefel leol, i archwilio datblygiad **gwasanaeth cynghori dros ffoaduriaid i'w arwain gan gwirfoddolwyr o ffoaduriaid wedi eu hyfforddi**. Gallai Canolfan Datblygiad Ffoaduriaid Affricanaidd yn Tel Aviv fod yn fodel lwyddiannus i'w efelychu. Byddai'r fenter yn gallu cynnal ffoaduriaid a llocheswyr i oresgyn y trawma o aflesiad a'r pwysau ôl-trawmataidd mae llawer yn ei deimlo wrth gyrraedd y Deyrnas Unedig, a hefyd darparu gwaith gwerthfawr a phrofiad ac hyfforddiant i ffoaduriaid. Gallai gael ei sefydlu mewn nifer o fentrau cymunedol dros ffoaduriaid sydd eisoes yn bodoli yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

Blaenoriaeth B – I holl wleidyddion Llywodraeth Cymru ymgyrchu yn gadarnhaol ar gyfer hybu derbyniad a lleihau anoddefgarwch tuag at llocheswyr a ffoaduriaid

Cynigwn fod holl bleidiau Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n gyhoeddus y fenter i wneud Cymru yn Genedl Noddfa, ac i fod yn glir pan yn ymgyrchu i beidio â drysu'r gwahaniaeth rhwng gweithwyr ymfudol a llocheswyr neu ffoaduriaid.

Blaenoriaeth C – I hybu ymhellach cynhwysiad ffoaduriaid

Mae adfer ymwybyddiaeth o berthynas yn bwysig iawn yn y broses o alluogi ffoaduriaid a llocheswyr i gyfrannu'n gadarnhaol yn y gymuned derbyn. Cynigwn fod Llywodraeth Cymru yn datblygu, cydnabod ac ymgymryd â grwpiau ffydd a grwpiau gwirfoddol eraill sydd yn gwneud cyfraniad leol arwyddocaol at adfer ymdeimlad y ffoadur o berthyn. Mae eisiau cryfhau partneriaethau lleol cryf rhwng cyrff statudol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i hybu ymhellach cynhwysiad ffoaduriaid. Yn benodol, fe all grwpiau ffydd lleol a grwpiau eraill gwirfoddol lleol weithio gyda llywodraeth Cymru i gyflenwi canlyniadau prosiectau megis rhaglen ailgartrefi ffoaduriaid y Gateway.

Blaenoriaeth Ch – I leihau tlodi ymysg plant ffoaduriaid

Mae nifer o ffoaduriaid, yn enwedig y rhai hynny sydd â phlant bach, yn dioddef caledi dwys tra'n aros am fisoedd maith i'w budd-daliadau plant a credydau treth plant cael eu prosesu. Gofynnwn fod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r Adran dros Waith a Phensiynau a Job Centre Plus i leihau'r amserau lleol wrth brosesu'r budd-daliadau allweddol hyn.

Blaenoriaeth D – I alluogi Ffoaduriaid i ennill mynediad i Addysg Uwch

Mae nifer o ffoaduriaid yn ffoi o'u gwlad gwreiddiol a maent yn methu dogfennu eu addysg flaenorol, ac mae nifer ohonynt yn methu ysgrifennu Saesneg academaidd. Mae'r ffactorau hyn yn gallu bod yn rhwystrau i fynediad i Addysg Uwch. Felly, er mwyn galluogi mwy o ffoaduriaid i gyrraedd eu potensial a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas, cynigwn fod Llywodraeth Cymru'n gweithio ochr yn ochr â sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i cydosod cyrsiau Mynediad sydd wedi eu anelu'n uniongyrchol at alluogi ffoaduriaid i gael mynediad i Addysg Uwch. I ddechrau, fe fyddai hyn yn debyg o ddechrau yng Nghaerdydd ond fe allai gael ei ehangu i Abertawe a Chasnewydd os oedd gofyn.

Cyswllt Cristnogol

Adnodau Beiblaidd:

Luc 4:18 - Datgan rhyddid a rhyddau'r carcharwyr'

Hebreaid 13 - Lletygarwch i angylion

Mathew 25 - Y defaid a'r geifr

Lefiticus - ag erail l- 'Roeddech chwi yn ddieithriaid yn yr Aifft unwaith, dylech groesawu estroniaid.

Dechreuodd yr Iesu ei hun yn ffoadur ar ddechrau ei fywyd, yn ffoi hil-laddiad yn Israel ar ôl i Dduw ymddangos mewn breuddwyd i'w rieni.

Cydnabyddodd y grŵp fod Asiantaeth Ffiniau y Deyrnas Gyfunol a materion eraill o gwmpas lloches yn gorwedd yng ngwyliaeth San Steffan. Fodd bynnag, cytunwyd ar 5 cynigiad, yn cynnwys: iechyd meddyliol, Addysg, ymgyrchu, cynhwysiad ffoaduriaid, a thlodi ffoaduriaid ar ôl trafodaeth o'r materion yn wynebu ffoaduriaid yn y meysydd hyn. Ni drafodwyd unrhyw awgrymiadau eraill.

Busnes a Mentergarwch

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Sgiliau ar gyfer busnes

I fusnes, mae'r gyfundrefn addysg o bwysigrwydd allweddol o ran darparu addysg addas a sgiliau ar gyfer busnes a bywyd trwy allu mewn llythrennedd a rhifedd yn ôl lefel yr unigolyn o gyfrifoldeb, a dealltwriaeth ac ymarfer o'r agweddau a'r disgyblaethau anghenrheidiol, yn ogystal â'r ymwybyddiaeth cadarn o gyfrifoldeb moesol a moesegol yn ei ymddygiad.

Blaenoriaeth B – Trawsnewid o addysg i fyd gwaith

Dylid annog busnesau a mentrau cymunedol i gyfrannu at gefnogi y pontio pwysig o addysg i waith trwy greu a defnyddio prentisiaethau a gweithrediad mentrau cymunedol.

Blaenoriaeth C – Dealltwriaeth cilyddol o fyd busnes

Dylai fod gwell dealltwriaeth o anghenion a gweithrediad mentrau llwyddiannus gan aelodau o'r Cynulliad, swyddogion a sefydliadau addysg. Awgrymir bod hyn yn gallu digwydd trwy gyflwyno ymweliadau rheolaidd gan aelodau a swyddogion i fentrau o bob maint yn eu meysydd o gyfrifoldeb. Byddai hyn yn wybodaeth defnyddiol ac yn fodd o alluogi gwybodaeth o'r sefyllfa diweddaraf mewn byd sydd yn newid yn gyflym an sydd yn gystadleuol iawn.

Blaenoriaeth Ch – Ymrwymiad busnes i addysg

Yn yr un modd, byddai sicrhau bod cyfran o gynrycholwyr busnes ar fyrddau ysgolion a cholegau yn helpu i gadw'r rheini mewn cysylltiad â'r anghenion cyfnewidiol a chyflyrau ym myd busnes. Byddai rhain yn gwella'r ymwybyddiaeth o risg; gweithrediad o gystadleuaeth, yn enwedig o dramor; anhawsterau llif arian a'r angen am argaeledd o gyfalaf ar gyfer cynnydd. Yn amlwg mae rhain yn anhepgor er mwyn gweithrediad lwyddiannus o unrhyw fenter ac o ganlyniad i gyfoeth Cymru yn y dyfodol, felly mae eisiau dealltwriaeth lawn gan ddeddfwyr a gweithrediadwyr polisi.

Cyswllt Cristnogol

Ym Mhrydain dros y 200 mlynedd olaf, mae Cristnogion wedi bod ar flaen datblygiad ym maes addysg, yn gweld y cyfle i ddatblygu sgiliau a thalentau i'w llawn dŵf fel arwydd o werth pob person yng ngolwg Duw. Ym myd busnes, mae Cristnogion wedi ceisio hybu ymwybyddiaeth gadarn o gyfrifoldeb ac atebolrwydd personol, yn ogystal â chonsyrn am foddhad eraill. Mae'r Beibl yn pwysleisio ar bwysigrwydd gwaith, boed yn gyflogedig neu beidio, fel modd o hybu urddas a boddhad dynol. Fel yr eglurir ym mhenodau cynnar Llyfr Genesis, bwriad cyntaf Duw oedd bod dynoliaeth yn rhannu yn ei greadigrwydd a'i stiwardiaeth o'r byd materol. Mae dysgeidiaeth y Testament Newydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith (2 Thesalonicaid 3:6-13; 1 Timothy 5:8). Mae busnesau preifat a'r sector cymdeithasol yn chwarae rôl allweddol trwy ddarparu gwaith buddiol i nifer helaeth o bobl. Mae cyd-ddealltwriaeth a pharch at eraill yn werth allweddol Cristnogol (1 Corintiaid 12:12-20). Mae hyn yn golygu sawl dimensiwn ymarferol i'r perthynas rhwng busnes, y llywodraeth a chymdeithas mwy eang yng Nghymru.

Plant a Phobl Ifanc

Blaenoriaethau i Blant

Ymgodymu â Thlodi Plant

Blaenoriaeth A – Darparu ar gyfer plant

Cadw darpariaeth ar gael. Gwneud mynediad yn agored ond wedi ei anelu at blant di-freintiedig. Dim wedi ei seilio ar côd post fel bod plant yn gallu cael mynediad i glybiau brecwast, gofal am blant heb ddibyniaeth ar ble maent yn byw.

Blaenoriaeth B – Cyfleoedd i Blant

Darparu cyfleoedd o safon am ddim. Gwneud hyn yn flaenoriaeth cyllido. Gwneud hyfforddiant yn hawdd i'w gael gan gwirfoddolwyr ac arweinwyr er mwyn lleihau'r 'agendor' rhwng darpariaeth rhad ac am ddim a darpariaeth am gyflog sydd yn rhoi gwell cyfleoedd i'r rhai sydd yn methu fforddio i dalu.

Blaenoriaeth C – Cynnal Plant

Hybu'r sector gwirfoddol i weithio gyda a chynnal plant mewn tlodi.

Blaenoriaeth Ch – Ysbrydoli Plant

Sicrhau bod darpariaeth ar gael bydd yn codi'r lefelau o uchelgais a hyder ymysg plant cyn iddynt ddechrau eu ardegau i'w helpu i wrthsefyll cylch tlodi.

Blaenoriaethau i Bobl Ifanc

Blaenoriaeth D – Diogelwch

Newid y mynediad i bornograffi fel bod rhaid ymuno yn hytrach na chael mynediad yn rhad ac am ddim. Mae eisiau i'r mynediad fod yn fwy anodd i blant yn eu ardegau.

Blaenoriaeth Dd – Addysg Rhywiol

Ymgodymu â'r broblem o rywioli plant a phobl ifanc trwy ddatblygu addysg rhywiol mewn ysgolion gan roi iddo ymdriniaeth mwy cyfannol.

Blaenoriaeth E – Cynhaliaeth

Darparu cyllid a chynhaliaeth i sefydliadau sydd yn gallu cynnal ac addysgu pobl ifanc oddi mewn a thu allan i'r ysgol ynghylch addysg rhywiol, hunan-werth a hyder.

Blaenoriaeth F – Adeiladu Cymeriad

Datblygu gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol fel eu bod yn flaenoriaeth addysgol ochr yn ochr â gwersi academiaidd. Mae eisiau i ni helpu plant a phobl ifanc i fod yn oedolion gydag aeddfedrwydd, hyder, hunan-werth cadarn a chymeriad i'w helpu i wynebu materion bywyd.

Cyswllt Cristnogol

Mae plant a phobl ifanc yn bwysig i Dduw. Gwelwn Iesu yn gorchymyn ei ddisgyblion i alluogi'r plant i wario amser gydag ef (Mathew 19:13), ei fod yn gofalu amdanynt, yn eu bendithio ac yn ateb eu hangenion. Esbonia'r Beibl pa mor ddifrifol mae yn cymryd lles plant. Mae Mathew 18:6 yn dweud y dylai plant a phobl ifanc cael eu hamddiffyn, y dylem eu gwarchod ac ymddwyn yn barchus tuag atynt. Hefyd mae eisiau i ni eu addysgu a'u disgyblu i dyfu i fyny yn oedolion aeddfed a chyfrifol sydd yn gallu chwarae rhan cadarnhaol yn eu cymuned. (Effesiaid 6:1-4).

Ymrwymiad Cristnogol yng Nghymdeithas

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Hwyluso Deialog

Mewn achosion ble mae'r nodweddion sydd wedi eu amddiffyn gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwrthdaro, dylid annog cyfryngu a chyflafareddu cymaint â phosib, gydag achosion yn y llys fel y dewis olaf posib. Yn hytrach na chreu enillwyr a chollwyr, mae eisiau canolbwyntio ar hybu deialog rhwng grwpiau sydd â hawliau yn gwrthdaro a'i gilydd.

Blaenoriaeth B – Amddiffyniad Cyfartal

Dylai'r ddeialog yma ddigwydd gyda golwg ar amddiffyn rhyddid cydwybod y person crefyddol yn y gweithle cyhoeddus yn ogystal ag hawliau grwpiau eraill i gael triniaeth cyfartal yng nghymdeithas cyhoeddus. Byddai esiamplau yn cynnwys yr achos, a gyfeiriwyd ati isod, sef achos Ladele, rhyddid nyrsis i ymateb yn addas at ddyheadau am weddi, a'r gallu i bobl crefyddol yn gyffredinol fynegi eu ffydd yng nghyswllt côd gwisg ond bod materion diogelwch a'r gallu i wneud eu gwaith yn effeithiol yn bodoli.

Blaenoriaeth C – Eglurhad o Ganllawiau Cyllid

Mae eisiau i awdurdodau lleol, mewn deialog gyda grwpiau crefyddol, gael help i eglurhau'r graddau y gallant hybu mentrau ffydd cymunedol. Mae'r ddeialog yma'n anghenrheidiol i eglurhau'r ymateb a'r gwahaniaeth rhwng gweithrediad prosyliteiddio ar y naill law a phrosiectau wedi eu ysgogi gan prosiectau cymunedol ar y llall.

Blaenoriaeth Ch – Adolygiad Rheolaidd o Ymarfer

Dylid adolygu yn reolaidd (e.e. bob tair mlynedd) mor belled ag y mae amddiffynfa o ryddid cydwybod yn y cwestiwn, y meysydd hynny (e.e. Y Gwasanaeth Iechyd, Addysg) dan arolygaeth y Cynulliad i sicrhau nad oes or-gyfyngu. Un ffordd i alluogi hyn byddai sicrhau bod canllawiau i fynegiant priodol o ffydd yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cael eu datblygu mewn trafodaeth gyda grwpiau crefyddol.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r mwyafrif o Gristnogion eisiau gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas. Rydym yn cael ein annog gan Jeremeia yn ei lythyr at yr Israeliaid mewn alltudiaeth “i geisio lles y ddinas...a gweddio i Dduw ar ei chyfer, oherwydd yn ei lles hi fe ddarganfyddwch chi eich lles eich hunain” (Jer.29:7). Fe'n anogwyd i barchu natur ein diwylliant tra'n aros yn driw i'n gwerthoedd a'n argyhoeddiadau Cristnogol. Mae Paul yn ei lythyr i'r Rhufeiniaid yn ein annog “i fyw mewn heddd gyda phawb” (Rhufeiniaid 12:18), mor belled ag y mae yn dibynnu arnom ni, tra ar yr un amser yn sicrhau ein bod yn gofalu ein bod yn gwneud “pob peth sydd yn gywir gerbron pawb” (Rhu.12:17). Felly ein gwerthoedd a'n argyhoeddiadau Cristnogol sydd yn ein gorfodi i barchu a gwasanaethu eraill ac i helpu'r difreintiedig.

Mae felly yn fater o gryn bryder bod yr amlygiad o ffydd Gristnogol yn y sector cyhoeddus yn destun o gryn ddadlau. Mae achosion llys o gyhoeddusrwydd mawr (e.e.Lillian Ladale yn erbyn Bwrdeistref Islington, Llundain,2009) wedi amlygu cymhwysedd o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ble mae 'n ymddangos bod rhai nodweddion gwarchoddedig (yn achos Lidele, priodas sifil/cyfeiriadedd rhywiol) yn cael y flaenoriaeth dros eraill (e.e. crefydd a chred) mewn sefyllfaoedd lle'r oeddent yn gwrthdaro.Ar ben hynny, mae rhai grŵpiau o Gristnogion yn gwneud cais am gyllid i gynnal prosiectau cymunedol, er enghraifft, banciau bwyd, yn cael eu gwrthod gan lywodraethau lleol oherwydd y dyhead i beidio â noddi unrhyw grefydd arbennig, tra bod eraill heb wneud hynny. Mae'r ymchwiliad 'Clearing the Ground,' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2012 gan Gristnogion y Senedd, yn cynnwys dadansoddiad o'r Ddeddf Cydraddoldeb a nifer o argymhelliadau yn ymateb iddynt. Maent wedi eu atseinio yn rhannol yma.

(1) <http://www.eauk.org/current-affairs/publications/upload/Clearing-the-ground.pdf>, accessed 07.06.2012

Glanhau Gwleidyddiaeth

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Delio gyda themtasiwn

1. Mae pŵer yn llygru, a gallwn i gyd gael ein temtio. Dylir mabwysiadu rhai mecanweithiau i helpu lleihau y tebygrwydd o demtasiwn, a darparu arfau ataliol os bydd temtasiwn yn digwydd.
2. Dylai fod ethos o dryloywder, cyfansoddiadau cadarn ac atebolrwydd.
3. Dylai pobl gael eu dal yn atebol am drafodion cyllidol a masnachol trwy arolygaeth pwyllgor effeithiol i sicrhau nad oes ffafriaeth 'llwythol' neu nepotisiaeth.
4. Dylir ymgymryd ag adolygiad o ddsbarthiad pŵer i sicrhau gwasgariad mwy doeth oherwydd:
 - a. Mae bod heb bŵer yn gallu achosu rhwystredigaeth ymysg lefel is o staff.
 - b. Mae gormod o bŵer ymysg staff hŷn yn gallu creu'r syniad eu bod yn anffaeledig.
5. Dylai cynghorau unedol gael cyfansoddiad oherwydd ar y pryd does dim un ganddynt a gall hyn arwain at ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd cyfyngedig.
6. Dylai pob aelod etholedig a phob swyddog gael cwrs cyflwyno a chyrsgiau i'w atgoffa'n aml i sicrhau nad yw'n anghofio fod pob punt a werir yn bunt a enillwyd trwy waith caled aelod y gymuned ehangach ac a drosglwyddwyd yn ddidwyll am wasanaethau a werthfawrogrir.

Blaenoriaeth B – Y Wasg a Chyhoeddusrwydd

Mae rhyddid y wasg yn holl-bwysig. Dylir sefydlu côd gwirfoddol a chanllawiau i sicrhau bod:

1. Y wasg yn fwy gwrthrychol yn lle dim ond yn anelu at werthu papurau.
2. Y wasg yn fwy ynghlwm wrth materion lleol, ac yn fwy ymwybodol o ddigwyddiadau lleol, pobl a materion.
3. Mwy o ddealltwriaeth o wendid dynol rhesymol, gan ei fod yn anodd iawn i aelodau etholedig gyfaddef eu bod wedi gwneud camgymeriadau heb gael eu rhigodu yn ormodol a'u cyhuddo o wneud droeon pedol neu o 'fflip fflapio'.
4. Gan fod 'cywirdeb gwleidyddol' yn arwain at lambastiad am ddigwyddiadau degawdau ynghynt, eto yn anghymesur, dylai fod adrodd cymhedrol i alluogi digwyddiadau'r gorffennol i gael eu barnu yn deg gan safonau heddiw.
5. Dylai'r wasg fod yn fwy ymchwilgar a thrwyadl oherwydd maent yn ymddangos fel pe baent wedi colli hyder yn y meysydd yma.
6. Does dim elwa o'r hud o fod yn enwog am bymtheg munud beth bynnag bo'r gost.

Blaenoriaeth C – Delio â charfannau pwyso

Gan ei fod yn anodd i wybod sut i ddelio â charfannau pwyso, dylir sefydlu canllawiau newydd a fyddai yn helpu cyfathrebiad gyda nhw i sicrhau:

1. Eu bod yn cael eu ystyried yn dda wrth annog pobl i gyfrannu mewn achlysuron lleol ac i ymafael yn y broses ddemocrataidd.
2. Bod eu potensial fel pwynt ffocws i blacmel dichonol, neu fel modd o gyflenwi cildyrnau yn cael ei leihau.
3. Bod effaith anghymesur cyntedda rhyw Gwmni sydd yn gallu bod bron yn amhosib i'w wrthsefyll ac yn gallu oruchafu unrhyw consym lleol yn llwyr yn cael ei gadw o fewn terfynau teg.
4. Dylai cofrestrau o fuddiannau aelodau cynnwys eu cysylltiadau cyntedda; dylai gwrthdrawiadau posib o fuddiannau yn bendant gael eu cyhoeddu a dylai gweithrediad cyweiriol cymryd lle.

Blaenoriaeth Ch – Aneglurwch o'r gwahaniaeth rhwng gweithredoedd da a drwg

1. Mae'n ymddangos bod yna gynnydd yn y nifer o wleidyddion 'proffesiynol', sydd yn gweld gwleidyddiaeth fel gyrfa yn hytrach na gwasanaeth i'r cyhoedd. Gan fod hyn yn gallu arwain at osod hunan o flaen daioni'r gymuned, dylai fod yna arolwg o'r côd gwerthoedd i sicrhau bod pwyslais ar y ffaith mae'r prif rôl ydy gwasanaeth cyhoeddus ac nid gyrfa.
2. Dylai'r côd gwerthoedd ystyried y ffaith bod y rhai hynny sydd yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth o'r lefel lleol i'r lefel genhedlaethol yn cynrychiolu cymdeithas yn ei gyfanrwydd. Mae yna bechod yng nghymdeithas a felly bydd yna bechod mewn gwleidyddiaeth.
3. Dylai'r holl bleidiau cydnabod ein bod yn credu fod yna le pwysig i bobl o ffydd.
4. Dylai gwleidyddion ymdrin â phobl o ffydd gyda pharch ac urddas, fel rhai sydd yn cynorthwyo rhywbeth gwerthfawr i gymdeithas er enghraifft Bugeiliaid y Stryd.
5. Dylai'r holl bleidiau cydnabod bod Cristnogion yn gorfod bod yn fwy pendant a hunanhyderus yn yr efengyl, trwy ras ac esiamp.
6. Dylai fod dysgeidiaeth glir ar safonau, ar wasanaeth, ar ddyletswydd ac ar gyfrifoldebau. Rydym wedi pwysleisio ein hawliau a lleihau ein cyfrifoldeb i'n gilydd.

Blaenoriaeth D – Rhyddid gwybodaeth a thryloywder

1. Gan ei fod yn anodd i gael cefndir unrhyw fater a'r meddwl ynglŷn â'r stori, dylir creu system sydd yn hawdd i'w gyrraedd ac sydd yn cynnwys pob maes diddordeb.
2. Dylir bod datgeliad llawn am incwm o bob ffynnonhell.
3. Dylir bod datgeliad llawn o perthnasau- teuluoedd a ffrindiau a allai elwa oddiwrth penderfyniad, ac aelodaeth o sefydliadau fel y Seiri Rhydd.
4. Dylir cael gwir cystadleuaeth fel elfen adeiladol yng nghyswllt cyflogaeth o bob aelod o'r staff, er mwyn osgoi hyd yn oed drwgdybiaeth o nepotistiaeth a llwytholdeb.
5. Rhaid parchu'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys yr holl wybodaeth sydd wedi arwain at benderfyniad arbennig.
6. Dylai pob plaid ymrwymo'r syniad bod pob Maniffesto yn cael ei wneud yn ddidwyll, nid yn cael ei addo a wedyn yn cael ei anghofio, ac esboniad yn cael ei roi pan fod rhannau pwysig o'r maniffesto yn cael eu gwrthod ar ôl etholiad.

Blaenoriaeth Dd – Gwrthdrawiad o fuddiannau

Yn ogystal â'r pwyntiau a soniwyd amdanynt yn gynharach fel ffactor pwysig dylai pob plaid ymrwymo â'r syniadau canlynol:

1. Mae'n rhaid i'r llywodraeth fod yn dryloyw. Mae diffyg tryloywder yn arwain at siniciaeth a theimlad o fod yn anghysylltuedig ar ran y cyhoedd. Mae hyn yn beryglus iawn i ddemocratiaeth.
2. Ffactor blaenllaw ydy'r ymarfer o bobl yn cael mwy nag un swydd. Yn ein barn ni, mae'n well bod un person yn cael un swydd mewn unrhyw gorff deddfwrddiaethol. Dylai bod yn Aelod o'r Cynulliad fod yn swydd llawn amser. Gall swyddi eraill tu allan fod yn rhan-amserol ac wedyn gallai unrhyw waith cyflogedig arall fod yn gyfatebol yn nhermau oriau ac arian.
3. Dylai'r rhaniad o gyfrifoldebau a diddordebau aelodau o'r cynulliad/cyngor oddiwrth ardaloedd arall o waith tebyg, boed cyflogedig neu beidio, boed uniongyrchol neu beidio, bod yn glir ac yn amlwg, ac y mae gwleidydd sydd yn cael ei amgyffred fel un sydd yn gwneud penderfyniadau tra'n gysylltiedig â rhyw gwmni -teulu, cyllidol neu arall- yn gorfod ymwahanu ei hun yn amlwg o'r broses o benderfynu.

Cyswllt Cristnogol

Wrth edrych ar Rhufeiniaid 13:1-7 mae'n ymddangos bod y Beibl yn pwyntio at nifer o egwyddorion ynghylch trefn lywodraethol. Mae awdurdod a llywodraethu Dinesig yn cael eu gweld fel rhoddion dwyfol er lles dynol, a'r daioni cyffredinol, sydd felly yn adlewyrchu caredigrwydd Duw trwy'r trefniant dda o gymdeithas, gyda, fel canlyniad, pwerau arbennig i orfodi cydymffurfiad. Mae Cristnogion yn cael eu cymhell i geisio datblygu rhinweddau dinesig a phersonol sydd yn eu galluogi i geisio cyflawnu eu dyletswydd cymdeithasol a gwleidyddol fel dinasyddion.

Mae gan 1 Timtheus 2:1-2 yr oblygiad fod yna gorchymyn i feithrin heddwch, parch ac urddas, a'r rhyddid i ganlyn crefydd ac i gwrdd â gofynion ffydd. Mae hyn yn golygu bod Cristnogion i fod i ymrwymo eu hun ym mhob weithgaredd dynol er mwyn dwyn cyfiawnder a thegwch Duw i'r byd. Gall hyn olygu herio llywodraeth nad sydd yn adlewyrchu pwrpasau Duw.

Troseddu

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Ymyriad Mewn Magu Plant

Teimlwn pryder nid yn unig dros droseddu ei hun ond hefyd dros achosion troseddu sydd yn aml ynghlwm wrth diffyg hunan-werth, ansicrwydd, rôl-delfrydau gwael ac addysg ddiffygiol ac felly mae yna ganlyniadau eang a hir-dymor. Ni fydd ymyriad mewn magu plant yn rhad ond mwy na thebyg yn rhatach na chost gynyddol y boblogaeth o garcharorion (a'r gost yn aml yn chael ei anwybyddu) sydd yn mynd at atgyweirio'r difrod cymdeithasol ac emosionol a achoswyd gan droseddu.

Mae eisiau cynnal rhieni a'u helpu wrth iddynt greu pobl ifanc sydd yn gadarn yn gymdeithasol ac yn ymwybodol yn ysbrydol. Mae pobl ifanc sydd ag ymwybyddiaeth gadarn o hunan-werth, gyda fframwaith moesol sefydlog ar gyfer bywyd a'r dyhead i lwyddo yn gwneud y byd yn le gwell i bawb. Magu plant ydy un o'r tasgau mwyaf heriol rydym yn wynebu ond mae yn un y disgwylir inni ragori ynddi. Cynigwn ddsbarthiadau cyn-geni i bob mam sydd yn disgwyl baban; fe ddylai cyrsiau magu plant dilyn y cyrsiau cyn-geni heb wrthnod a mentora lle posib. Mae rhain yn cael eu cynnal ar ffurf peilot mewn rhai manau.

Blaenoriaeth B – Ymyriad Mewn Bywydau Plant

Ble mae plant, am ba rheswm arbennig, yn dod dan ofal yr awdurdod leol, dylai'r awdurdod leol honno cheisio nid yn unig gyflawni'r uchod ond hefyd, mewn partneriaeth ag asiantaethau a chyfundrefnau eraill, geisio adfer unrhyw niwed seicolegol a chymdeithasol a ddiodeswyd. Ni ddylai'r gofal hynny orffen yn fympwyol ar adeg penodol o ran oedran ond dylai fod yn gyfredol fel y mae mewn unrhyw deulu naturiol ac os yn addas gyda mentor.

Mae'n bwysig i sicrhau bod ethos yr ysgolion, yn gweithio mewn partneriaeth â'r teuluoedd, fodd bynnag y mae hynny yn cael ei ddiffinio, yn atgyfnerthu hunan-werth disgyblion. Yn ogystal â fframwaith ysbrydol a moesol, dylai ysgolion hybu'r gwytnwch i wrth-sefyll y pwysau negyddol o gymdeithas ym mha ffurf bynnag y mae yn dod, ac ymdrechu i adeiladu cymdeithas gwell. Mae eisiau cyd-weithrediad agos rhwng ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, grwpiau ffydd ac asiantaethau er mwyn cyrraedd hyn.

Blaenoriaeth C – Mentora

Mae mentora yn ddull gwerthfawr o gynnal unigolion sydd yn brwydro ar unrhyw adeg o'u bywydau, boed fel mam hŷn yn mentora un iau, person sydd wedi torri'r dibyniaeth ar gyffuriau yn mentora unigolion yn anelu at ddibyniaeth, aelodau llwyddiannus yng nghymdeithas yn ochri gyda'r rhai hynny sydd yn methu, neu rhai uchelgeisiol yn llawn potensial yn cael eu cynnal gan rhai sydd wedi llwyddo yn barod.

Blaenoriaeth Ch – Carcharau

Mae adroddiad Wolfe ar ôl terfysg Strangeways ym Manceinion yn datgan na ddylai carcharau fod ymhellach na phumdeg milltir oddiwrth gartref y troseddwr.

Oherwydd gor-ymwasgu a lleoliad carcharau presennol nid dyma'r sefyllfa. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru ble nad oes carchar i fenywod, yr agosa ym Mharc Eastwood ger Caerloyw.

O ystyried gwerth cynnal cysylltiadau teuluol tra yn y carchar, mae'n angenrheidiol bod gennym digon o garcharau sydd wedi eu lleoli yn ddigon agos i alluogi teuluoedd i ymweld yn reolaidd. Byddai hynny yn golygu mudiad oddiwrth carcharau gorlawn mewn lleoliadau ynysig. O ystyried rôl allweddol menywod ym mywyd teuluol, mae'n holl-bwysig bod gennym o leiaf dau garchar i wragedd yng Nghymru (un yn y Gogledd ac un yn y De), a bod unedau merched ynghlwm wrth carcharau eraill lle mae hynny'n ymarferol.

Hefyd mae angen dwys am garchar i ddynion yn y Gogledd yn hytrach na Lerpwl fel y mae ar hyn o bryd.

Ble, am ba rheswm arbennig, mae carchar ymhell iawn oddiwrth cartrefi'r troseddwyr, dylid ymchwilio ffyrdd o hwyluso ymweliadau.

Blaenoriaeth D – Didroseddu rhai troseddau cyffuriau

Mae mudiad wedi bodoli yn y blynyddoedd diweddar i gynyddu'r nifer o bethau sydd yn arwain at dyfarniad troseddol a chofnod o dramgwydd troseddol. Mae hyn yn cael effaith enfawr ar ddyfodol unigolyn ac yn cynyddu'r gost i'r gyfundrefn trosedd gan ddefnyddio adnoddau y gellid eu manteisio yn well rhywle arall.

Mae barn Cristnogol yn ranedig ar di-droseddu y defnydd o gyffuriau ond y mae yna achos yn bendant i ail-edrych unwaith eto ar bwy sydd yn cael eu dyfarnu'n euog fel mater o frys.

Mae yna achos i ail-ystyried y cyffuriau hynny sydd wedi eu categorio yn anghyfreithlon.

Blaenoriaeth Dd – Rhaglenni Dadwenwyno ac Adferiad

Mae yna serch hynny angen am driniaeth yn hytrach na chosb i'r rhai hynny sydd yn ddefnyddwyr o gyffuriau anghyfreithlon a niweidiol a dylid bwrw ymlaen yn hyn o beth. Gallai lleihau cost termau yn y carchar rhyddhau cyllid i fuddsoddi mewn mwy o raglenni triniaeth ym maes cyffuriau.

Gallai dadwenwyno ac adferiad fod yn gyfaddawd da yn y mater hwn. Yn gysylltiedig â chyflogaeth a chyfle i gael cartref, gallai'r manteision hyn fod yn effeithiol iawn i'r rhai hynny sydd hebddynt.

Cyswllt Cristnogol

Wrth galon yr Efengyl y mae neges o gyfiawnder ynghyd ag adferiad ac y mae hyn hefyd wrth galon y manifesto yma.

Mae yna bwyslais hefyd ar fywyd teuluol ac o ganlyniad y dyhead i atal ymddatodiad o'r uned teuluol, ac y mae hyn wedi ysbrydoli'r gofyniad am garcharau lleol i fenywod sydd yn dal yn brif ofalwyr o blant.

Nid ydym yn credu y dylai'r carchar fod yn gosb yn unig ond yn hytrach dylai ddilyn yr egwyddor Gristnogol o adferiad, maddeuant a iawndal priodol i ddiodefwr am yr hyn y mae troseddwr wedi achosi iddynt.

Yn olaf, mae cymuned Gristnogol yn bwysig ac mae'r cam cyntaf tuag at gynorthwyo pobl i fod yn aelodau o'r gymuned ble y maent yn byw yn holl- bwysig. Yn aml, mae eisiau help ar bobl i wneud hyn yn hytrach nag anfon pobl i'r carchar sydd yn lledu'r bwlch cymdeithasol i'r person.

Iaith; Twristiaeth a Hamdden; Diwylliant, Y Celfyddydau a Threftadaeth

Egwyddorion Cyffredinol

Fel egwyddor cyffredinol mae angen cydnabod:

1. Nad ydy'r pynciau yma yn bodoli ar wahan, naill ai oddiwrth eu gilydd, neu oddiwrth cymunedau llwyddiannus lleol.
2. Bod y strategaethau a seiliwyd ar y pynciau a enwir uchod eisiau eu datblygu ochr yn ochr â chynlluniau adfywiad economaidd o fewn y genedl. Mae polisïau a awgrymwyd o anghenraid wedi eu categorio, ond gallai nifer o awgrymiadau â pherthnasedd cyfartal fod wedi cael eu categorio.
3. Bod hyn yn golygu ymrwymiad bwriadol a mesuradwy i bartneriaethau croes-sector er mwyn hybu agweddau strategol a chyfannol sydd yn crynhoi a chyd-drefnu prosiectau adfywiad leol. Mae rhain i gyd yn ardaro ac yn cael effaith ar iaith, twristiaeth ac adloniant, a diwylliant, y celfyddydau a'r dreftadaeth genedlaethol: bydd ein hymatebion lleol a chenedlaethol yn cael eu siapiro yn eu tro gan ein dealltwriaeth ni ein hunain ô'n iaith, treftadaeth a'n diwylliant unigryw.
4. Bod y Cynulliad wedi cydnabod yn barhaus yr angen yma fel y'i penodwyd mewn adroddiadau cynt fel 'Gwneud y Cysylltiadau -Darparu Gwell Gwasanaethau i Gymru' (2004) sydd yn argymhell yr angen i rannu yr ymarferiadau gorau rhwng sefydliadau.
5. Yr angen i ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol er mwyn datblygu'r economi leol a lawnsio cynhyrchion a gwasanaethau (yn debyg i Ffair Masnach neu cydweithrediadau cymunedol bach lleol). Mae angen galluogi cyrff cymunedol i ddatblygu eu cyfalaf a bod yn llai dibynnol ar gyllid-nawdd. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant a chynnyddu cynhyrchu i wella'u sgiliau a'r medr i geisio am, darparu ac ennill tendrau.
6. Bod y Cynulliad yn gweld pwysigrwydd a chyrhaeddiadau'r 'Cyfalaf Ysbrydol' o fewn cymunedau yn y modd y maent yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad ' Grŵp Gweithredol Cyfalaf Ysbrydol'(2008).

Ceisio'r argymhellion hyn adeiladu ar fewnwelediadau blaenorol yn ogystal â gofynion cyfoes.

Blaenoriaethau

Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

Cyflwyniad

Mae hunaniaeth cenedlaethol Cymru yn hanfodol yn gysylltiedig â'i threftadaeth, diwylliant a'i hiaith. Mae rhaid i rhain i gyd cael eu trin mewn modd sensitif oherwydd bod ganddynt y potensial i'w defnyddio, mewn modd cadarnahol neu negyddol, naill ai fel modd i fod yn anynghwysol neu fel modd i greu cymdeithas cynhwysol. Yng ngoleuni'r adroddiadau Cyfrifiad mwyaf diweddar, mae materion ynghylchdirywiad yn y defnydd o'r iaith Gymraeg yn mynnu sylw uniongyrchol. Heb werthfawrogiad hanfodol o safle'r iaith Gymraeg byw o fewn y genedl, bydd diwylliant hanesyddol a threftadaeth unigryw yn cael eu camddeall.

Mae angen i:

Blaenoriaeth A – Sicrhau cyd-weithrediad rhwng Rhaglenni Addysgu'r Iaith Gymraeg
Sicrhau cyd-weithrediad pellach rhwng rhaglenni addysgu Iaith-Gymraeg dros Gymru gyfan.

Blaenoriaeth B – Amddiffyn y cymunedau Iaith-Gyntaf Cymraeg

Gweithredu polisiau i hybu amddiffyn cymunedau iaith-gyntaf ac i annog hyder yn y Gymraeg fel iaith fyw y gymuned. Fe fydd hwn yn golygu ystyried effaith cynlluio, codi tai a materion perthnasol eraill ar yr iaith Gymraeg ac ar gymunedau bach.

Blaenoriaeth C – Cynyddu'r nifer o ysgolion Iaith- Gymraeg

Sicrhau darpariaeth gynyddol o ysgolion Iaith Gymraeg. Roedd gwrthwynebiad dealladwy ar ran lleiafrif sylweddol yn erbyn y flaenoriaeth yma.

Blaenoriaeth Ch – Cydnabod Pwysigrwydd Hanesyddol Cymunedau Ffydd yng Nghymru

Cydnabod a chofnodi (ar lafar neu yn ddigidol) hanes leol (e.e. Casgliad y Bobl trwy Cymal) a rôl cymunedau ffydd yn ffurfio cymeriad ac hunaniaeth Cymru er enghraifft yn ddaearyddiaethol trwy enwau lleoedd (Llan) a pensaernyddiaethol trwy adeiladau a'u effaith ar dirwedd naturiol, gwledig a threfol ac amgylchfydoedd (mynachlogydd, eglwysi a chapeli).

Y Celfyddydau

Cyflwyniad

Mae'r Celfyddydau yn gynyddol yn cael eu cydnabod fel agwedd allweddol o gymdeithas. Mae potensial y Celfyddydau i addysgu, ysbrydoli ac annog pobl i gyflawni eu gwir gallu a chryn dystiolaeth iddo. Mae gan y Celfyddydau'r potensial i hybu perthynas cymunedol cadarnhaol, datblygu sgiliau newydd, ac ysbrydoli pobl i gyd-weithio i greu rhywbeth y gallent fod yn falch ohono.

Felly mae angen sicrhau:

Blaenoriaeth D – Bod y Celfyddydau yn agored i Gymru gyfan

Dylai'r mynediad i gelfyddydau fod yn ehangach ac yn agored yn gynyddol i bawb hyd a lled Cymru gyfan.

Blaenoriaeth Dd – Ymrwymiad i Brosiectau'r Celfyddydau a fydd yn Elwa ardaloedd Difreintiedig o safbwynt y gymdeithas

Y llesy'n deillio o, a'r cymhelliad hir-dymor i, brosiectau wedi seilio ar y celfyddydau o fewn ardaloedd di-freintiedig yn gymdeithasol.

Blaenoriaeth E – Cymhelliad i'r Celfyddydau Perfformio i Wella'r Gymuned a 'Bodddhad'

Cydnabod mewn oes o galedi a thoriadau cyllidol, bod addysgu cerdd mewn ysgolion yn darparu elw diwylliannol hir-dymor i gymunedau, yn ogystal â buddion i iechyd corfforol a meddyliol; mae cyfranogiad mewn gweithrediadau fel cerdd, drama, a.y.y.b. wedi ei brofi i wella'r gymuned a 'bodddhad'. Ni ddylai cyfranogiad mewn gweithrediadau fod yn rhagfaint i ardaloedd a theuluoedd mwy cyfoethog. Am y rhesymau hyn, dylid amddiffyn a chynnal addysg cerdd trwy polisi diwylliannol ac addysgol.

Twristiaeth a Hamdden

Cyflwyniad

Mae twristiaeth yn dal i fod yn anghenrheidiol i economi Cymreig lwyddiannus. Mae twristiaeth rhyngwladol yn dod â chyllid o'r tu allan ac yn helpu i hybu Cymru; mae twristiaeth oddi mewn i Gymru yn helpu datblygiad o ddealltwriaeth o'n hunaniaeth cenedlaethol a'r ymdeimlad o berthynas. Rydym yn cydnabod yr angen i:

Blaenoriaeth F – Parhau i wella'r mynediad i Atyniadau Twristiaeth

Gwella isadeiledd teithio o fewn Cymru.

Blaenoriaeth Ff – Parhau i wella er mwyn creu amgylchedd glân ac o safon uchel

Parhau i ddelio â gofidion ynghylch yr amgylchedd e.e. clirio lleoedd ôl-ddiwydiannol a chael gwared o dipio anghyfreithlon eithafol, chwithig a delwedd-niweidiol. Mae rhain yn creu argraff negyddol o Gymru i bobl lleol ac ymwelwyr yn gyffelyb.

Blaenoriaeth G – Hybu Twristiaeth Mewnol

Datblygu strategaeth i hybu twristiaeth mewnol – e.e. efeillio ysgolion o Ogledd a De Cymru i gydweithio ar brosiectau lleol; efeillio rhwng pentrefi a threfi o fewn Cymru.

Blaenoriaeth Ng – Datblygu Mwy o Bolisiau Cynhaliol

Hybu a datblygu polisiau cynhaliol diwydiannol ac amgylcheddol.

Blaenoriaeth H – Ffurio Polisiau Newydd i Fanteisio ar ein Treftadaeth Cristnogol Byd-Eang

Datblygu polisiau i fanteisio ar draddodiad hanesyddol Cristnogol Cymru.

Blaenoriaeth I – Marchnata Cymru'n well tramor

Gwella adnoddau a'r sylw i Gymru tramor.

Blaenoriaeth J – Hybu Atyniadau sydd yn bodoli a Datblygu Atyniadau Newydd Trwy'r Flwyddyn

1. Datblygu cyfleisterau i atyniadau trwy'r flwyddyn.
2. Amddiffyn a datblygu Canolfannau Hamdden – hefyd ar gyfer ffyniant cyfannol a iechyd parhaus.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r argymhelliad yma wedi ei seilio ar iaith, hanes a threftadaeth nodedig Cymru a cheisia hybu diwylliant cenedlaethol fyw o fewn y wlad hon. Mae'r ddogfen yn annog y mabwysiad o'r polisiau a amlinellir mewn hybu diwylliant lewyrchus a gwrth-droi y dirywiad yn y defnydd o'r iaith Gymraeg fel y'i recordiwyd yn y Cyfrifiad yn 2011.

Mae astudiaethau cymdeithasol yn talu sylw arbennig ac yn ymddiddori'n ddwys yn nhwristiaeth ac adloniant, celf a threftadaeth, iaith a diwylliant.

Yn yr un modd, creodd Duw dynolryw yn Ei ddelw ei Hun, gan roi iddynt "Mandad Diwyllianno" i fod yn ffrwythlon, ac i lywodraethu cymdeithas a natur yn yr un modd ag Ef, sef mewn creadigaeth, cariad, doethineb, sgil, ac mewn gofal dwys am ffyniant pawb.

Mae'r ffrwythlondeb a'r efelychiad o greadigrwydd hyn yn efelychiad o'r Creawdwr ei Hun. Yn nhrefn Duw, mae amrywiaeth a digonedd yn normau, tra bod unigolrwydd iaith a'r diwylliant cydredol yn cael eu deall fel gwyradau oddiwrth glasbrint Duw o ddiwylliannau sydd yn ffynnu. Mewn darnau Beiblaidd fel Actau 2:8, nid yn unig mae ieithoedd, diwylliannau a hunaniaethau cenedlaethol yn cael eu cadw, ond maent yn fynegiant o addoliad a chreadigaeth (gweler Datguddiad 5:9;6:9-10).

Treftadaeth: yn gwybod ein hanes, yn ail-ddweud ein hanes, yn diffinio ein hunain yn nhermau'r hanes honno, ac mae cydnabod llaw Duw yn yr hanes honno hefyd yn cael ei ddathlu.

Psalms 87:7. Mae adloniant, cylchdro o orffwys ac adgyfnerthiad, yn ôl y Beibl, wedi ei adeiladu o fewn rhythmau y gread. Felly mae holl agweddau'r bywyd dynol sydd yn anghenrheidiol ar gyfer cymuned lewyrchus yn allweddol i weledigaeth y Beibl o fywyd yn ei lawnder.

Anabledd

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Cyfathrebiad a Phartneriaeth

Mae gan bobl ag anableddau, teuluoedd/gofalwyr ac asiantaethau eraill gwybodaeth helaeth. Byddent yn gwerthfawrogi ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru, eglwysi a chyrff cymunedol er mwyn ffurfio partneriaethau ar gyfer cydweithrediad.

1. Byddai'n ddymunol i ddatblygu strategaeth genedlaethol i ddathlu ymarfer da a rhannu hanesion o bartneriaeth rhwng y sector statudol a'r trydydd sector.
2. Creu adnoddau ar gyfer mentrau newydd.

Blaenoriaeth B – Eiriolaeth

Mae pobl ag anableddau yn arbennig o glwyfadwy oherwydd eu bod hwy a'u teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol ac heb fod mewn cysylltiad ag asiantaethau a allai eu helpu.

Dylai holl asiantaethau a sefydliadau, gan gynnwys cymunedau ffydd, gael darpariaeth ar gyfer hyfforddiant i'w galluogi i arwyddbostio pobl anabl tuag at gwasanaethau lleol.

Blaenoriaeth C – Awdurdodi

Mae pobl ag anableddau yn dymuno cael eu galluogi tuag at annibyniaeth mwy eang

1. Bydd hyn yn digwydd dim ond fel bod y cymunedau yn deall anghenion, wrth bod cynhaliaeth o ansawdd a gweithrediad o fentrau lleol.

Blaenoriaeth Ch – Cynhwysiad

Mae pobl ag anableddau eisiau eu cynnwys yn gyfangwbl mewn cymunedau, ar lefelau lleol a chenhedlaethol. Darpara'r gymuned ffydd Gristnogol delfryd ymddwyn o gyfraniad a gwasanaeth i'r gymuned. Er bod 70% o eglwysi yng Nghymru yn darparu mynediad i'r anabl, a 40% yn darparu system ar gyfer y byddar, mae yna tipyn o ffordd i fynd i hybu hygyrchedd llwyr.

1. Galluogi'r gymuned ffydd Gristnogol i gael y cyfle i rannu achosion yn dangos ymarferiad da yn genedlaethol ac ar lefel lleol trwy'r we, cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o gyfathrebu.
2. Cynnal eglwysi Cristnogol wrth iddynt wneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau bydd yn helpu eglwysi i ddarparu cyfleusterau i bobl â phroblemau addysgol, heriau iechyd meddyliol, namau synhwyraidd a phroblemau symudedd.

Cyswllt Cristnogol

Rhaid dechrau yn y dechreuad gydag unrhyw ddiwinyddiaeth ar anabledd - dynoliaeth wedi ei chreu ar ddelw Duw (Genesis 1:27) a felly wedi ei phriodoli â gwerth ac urddas, ar wahan i'w gweithredoedd neu gyrhaeddiadau. Trwy'r Beibl gwelwn batrwm o gyfiawnder a thegwch cymdeithasol (Diarhebion 31:9) a dysgw'n am Dduw sydd yn amddiffyn y gwan ac am Geidwad sydd yn ymdrin â phobl anabl gyda chariad a pharch (Marc 1:41-42). Rydym yn sefyll yn nhraddodiad y Cristnogion hynny sydd wedi arloesi yn narpariaeth gofalu am bobl anabl - Andrew Reed, John Grooms, yr Arglwydd Shaftesbury, i enwi ond ychydig. Mae'r eglwys Gristnogol a sefydliadau gwirfoddol Cristnogol yn rhan o'r trydydd sector a felly yn adnodd genedlaethol a lleol.

Economeg

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Dull Cyfannol

Mae'n rhaid cael polisi economaidd sydd yn deillio o gydnabyddiaeth o anghenion mwy eang pobl Cymru. Dylai hyn osgoi 'meddwl mewn seilo' ble mae sectorau arbennig o'r economi a grwpiau neilltuol yn cael eu cynnal neu eu ffafrio yn unig er gweithred eu cysylltiadau gydag eraill. Dylai polisi hefyd fod yn gytûn ac yn focysu ar lwyddiant dynol hir-dymor, yn hytrach na datrasiadau byrdymor sydd wedi eu fframio o fewn cyfyngiadau'r cylchred gwleidyddol. Felly, er enghraifft, dylai buddsoddiad cyhoeddus ystyried anghenion a lles cenedlaethau i ddod, yn gymaint a rhai y presennol. Mae llwyddiant dynoliaeth cymaint am fuddsoddiant mewn cyfoeth cymdeithasol ac ysbrydol ag y mae am gyfoeth materol. Dylai polisi economaidd rhoi ystyriaeth addas i bwysigrwydd ymarfer stiwardiaeth da dros y cyfoeth naturiol sydd wedi ei rhoi gan Dduw fel bendith i bobl Cymru.

Blaenoriaeth B – Cyllid cynhaliol

Rhagfeddiannwyd cymdeithas gyfoes a'i strwythurau economaidd gan gyfraddau llog, ymchwyddiant, dyled, prynwriaeth cwsmeriaid a mesurau ariannol o foddhad (er enghraifft Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen). Dylai polisi economaidd yng Nghymru geisio lleihau byrdwn llog cyfraddog, pwysau ymchwyddiant, a byrdwn dyled ar y boblogaeth trwy hybu a chynnal cyfundrefnau cymunedol wedi eu canolbwyntio ar gyllid, fel undebau credyd a microcyllid, ac i ffwrdd oddiwrth credyd usuriaeth a benthyg gwael sydd yn gwasgu adnoddau o'r rhai mwyaf clwyfadwy. Dylid gyflwyno mesurau amddiffynoli cryfach er mwyn hybu ymaferiadau doeth a soddyfrannol.

Blaenoriaeth C – Cyfleoedd a chymhellion yn y gweithle

Dydy cyfleoedd cyflogaeth ddim bob amser yn cael eu rhannu yn deg dros gymdeithas - disgwylir i rai weithio oriau hir iawn i ennill bywoliaeth, eraill yn ffeindio'u hunain yn ddi-weithredol yn economaidd. Dylai unigolion gael eu annog a'u cynnal i aros mewn gwaith ac nid yn cael eu annog i fod yn segur, ac mae'n rhaid i'r rhai sydd yn cynllunio polisi ymdrechu'n egniol er mwyn cyflawni'r egwyddor yma yn effeithiol. Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, mae rhaid cydnabod bod cymdeithas yn wynebu oblygiadau i hybu mynediad i'r sgiliau addas a'r cyfleoedd hyfforddiant addas, boed galwedigaethol ac ymarferol neu academaidd. Dylid mabwysiadu dulliau hyblyg, yn hytrach nac 'un maint yn ffitio popeth' i alluogi pobl i weithredu'n effeithiol a phwrpasol, boed mewn gwaith cyflogedig neu yn ddi-gyflog, fel gwaith gofal ac yn y cartref neu yn gwirfoddoli ac mewn gwaith cymunedol. Dylai polisi cydnabod gwahanol anghenion unigolion yn y gwahanol gyfnodau yn eu bywydau.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r egwyddor o stiwardiaeth yn rhedeg trwy'r Beibl. Mae'n atgoffa cymdeithas bod talentau a medrau unigol a chorfforedig, yn ogystal â'r adnoddau naturiol a fendithia dynolryw, yn ddarpariaeth bendithiol gan Dduw ar ein cyfer (Salm 8). Mae'r ddarpariaeth honno yn economaidd, yn ateb ein anghenion materol, ac yn ysbrydol (Luc 12:22-28). Mae'r Beibl hefyd yn siarad yn helaeth am yr angen am y sicrwydd y bydd pawb yn cael mynediad i'r fendith materol ac ysbrydol ac nid yn cael eu gwahardd trwy golli cyfle economaidd neu trwy ecsplodiaeth cyllidol. (Deuteronomium 24: 10-22; Amos 5). Mae yna felly oblygiad ar y rhai sydd â llawer o gyfoeth i'w rannu gyda'r rhai sydd â llai (Actau 2:44-47).

Addysg

Cyflwyniad

Mae'r cyfeiriadau i addysg yn y pwyntiau canlynol yn cwmpasu ystod cyfan addysgu o addysg cynysgol i sefydliadau cynradd, uwchradd ac addysg bellach ac addysg gydol oes, ar gyfer pob oedran a gallu.

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Pwysigrwydd gwerthoedd Cristnogol ym myd addysg

Mewn cydnabyddiaeth o'n treftadaeth gyfoethog Cristnogol, teimlwn y dylai'r gyfundrefn addysg barhau i adlewyrchu'r gwerthoedd Cristnogol hynny sydd wedi bod yn sylfaenol i'n cymdeithas hyd yn hyn.

Blaenoriaeth B – Pwysigrwydd datblygu sgiliau a roddir gan Dduw

Dylai'r system addysg adeiladu ar y gwerth a osodir gan gymunedau ac unigolion ar annog datblygiad sgiliau a roddir gan Dduw.

Blaenoriaeth C – Pwysigrwydd yr hawl i fynegi ffydd personol o fewn y cyswllt addysgol

Rydym yn cynnal hawl unigolion, staff a dysgwyr fel ei gilydd, i fynegi eu ffydd o fewn y cyswllt addysgol.

Blaenoriaeth Ch – Pwysigrwydd cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol o fewn cymunedau addysgol

Ni ddylai addysg rwystro datblygiad ysbrydol a moesol plant a phobl ifanc y genhedlaeth nesaf.

Blaenoriaeth D – Pwysigrwydd cefnogi rhieni wrth baratoi eu plant ar gyfer bywyd fel oedolion

Credwn mai cyfrifoldeb rhieni yw paratoi eu plant am fywyd fel oedolion a dylai darparieth addysgol y wladwriaeth gefnogi rhieni yn hyn o beth.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r mandad Beiblaidd sydd yn cynnal egwyddorion cadarn addysgol i'w darganfod trwy'r Beibl gan gynnwys:

Hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd a phan heneiddio nid ymedy wrthi hi Diarhebion 22:6

Ofn yr Arglwydd yw dechreuad gwybodaeth Diarhebion 1: 7-9

A hysbysa hwynt i'th blant Deuteronomium 6 :7

Cyflogaeth

Cyflwyniad

Mae cyflogaeth yn:

1. **Fodd o ymarfer ein stiwardiaeth** ac wrth wneud hynny, dylai pobl gael mynediad i adnoddau a rheolaeth drostynt. Mae gwaith yn anghenrheidiol i urddas ddynol- nid y terfyn olaf ydyw. Mae'n ateb yr egwyddor Jiwibili o adfer unigolion yn eu adnoddau o stiwardiaeth.
2. **Weithgaredd cymdeithasol** yn hybu cyd-weithrediad mewn stiwardiaeth talentau ac adnoddau fel y'i portrewyd yn nysgeidiaeth y Testament Newydd ar yr eglwys. Dylai fod cyfyngiadau neilltuol i waith – egwyddor y Sabbath.
3. **Addoliad** pan y'i deallwyd yn iawn (mae'r gair Hebraeg 'avodah' yn golygu addoliad a gwasanaeth).

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Ymdeimlad o gymuned a chydlyniad cymdeithasol

Mae gwaith yn cyflawni'r gweithrediad o ddod â cyd-ddibyniaeth a chydweithrediad, elfen anghenrheidiol i lwyddiant dynol. Gall hyn olygu elfen o ddatganoli polisiau gan ystyried hanes a diwylliant leol. Mae angen galluogi cymunedau i fod yn ddyfeisgar ac efallai bydd hyn yn golygu codi eu cyllid eu hunain a mentrau hunan-gynhaliol fel cydweithrediadau. Mae gwell parch at waith gwirfoddol hefyd yn elfen angenrheidiol. Wrth fod cymunedau yn dod at eu gilydd mewn cydweithrediad dilys bydd yna ymdeimlad o gynhwysiad i bobl ifanc anfodlon, cyn-droseddwr a ffoaduriaid.

Blaenoriaeth B – Hybu agwedd gadarnhaol at fagu plant a dylanwad teuluol

Mae agwedd gadarnhaol a iach at waith yn tarddu o ddylanwad teuluol da yn bennaf. Dylai'r teulu fod y prif uned i roi cynhaliaeth a strwythur gydol bywyd. Pan yn gweithio'n effeithiol, dyma ble mae'r hinsawdd cywir yn cael ei greu i blant ddechrau cyflawni eu potensial. Mae eisiau modelau rôl cadarnhaol yn y teulu a'r gymdeithas mwy eang er mwyn ysbrydoli yr ifanc ag oedolion a sbarduno cyrhaeddiad, tra'n gwrthsefyll troeon bywyd negyddol ac ail-gyfrerthu rhai cadarnhaol. Mae eglwysi, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gyd â rhan i'w chwarae mewn adfer, cryfhau ac atgyfrerthu sgiliau rhieni.

Dylid gyfeirio at faterion iechyd ar lefel y teulu yn nhermau sut y dylid bwyta mewn modd iach, patrymau o ymarfer ac ethos gadarnhaol o wneud cyfraniad. Dylid gwrthsefyll disgwyliaid anfoddhaol sydd yn cael eu parhau yn y cyfryngau ac adloniant ac y mae angen mesurau sydd yn delio ag effaith negyddol llawer o'u cynnyrch.

Blaenoriaeth C – Addysg a mentora ym Mentrau Busnes

Mae'n rhaid i ni ddarganfod ffyrdd o osgoi diweithdra, hyd yn oed os ydy hyn ddim yn cynnwys gwaith cyflogedig. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn gallu dysgu oddiwrth rhai hŷn os oes sianel yn bodoli a ellir ei gael trwy gwasanaeth gwirfoddol.

Dylem ddatblygu gwell agwedd at bobl mewn oed a'r gwybodaeth y gallant ei gyflwyno o'r hyn y maent wedi ei ddysgu. Mae darganfod cyrhaeddiadau eraill, yn aml heb yr un adnoddau, yn gallu bod yn ysbrydoliaeth. Mae modelau rôl yn bwysig yn nhermau creu esiampyl mewn menter busnes. Dylai meddylfryd o fentergarwch gael ei annog mewn ysgolion a cholegau. Dylai cyrsiau bod yn ymarferol wrth arolygi sefydlu busnes gwirioneddol, fel bod ei ffurfiad a'i ddatblygiad yn amlwg fel rhan o'r cwrs, efallai gan gynnwys cyd-weithrediad adrannau menter llywodraethol lleol.

Mae busnes lleol yn allweddol i gydlyniad cymdeithasol.

Blaenoriaeth Ch – Yn lle budd-daliadau rhoi cyfleoedd gwaith i Ofalwyr, yr Anabl, Rhieni Sengl a.y.y.b

Mae'r newidiadau diweddar yn anelu at gael pobl ar Budd-Daliad Anabledd i mewn i waith yn golygu bod angen cyfleoedd gwaith sydd yn cyd-fynd a'r newidiadau hyn. Mae angen datblygu annogaeth Busnes er mwyn cynnwys pobl anabl neu rhai sydd â rhyw anfanteision iechyd eraill e.e. talu tuag at costau cyflog am y ddwy flynedd gyntaf tra bod eu sgiliau yn datblygu fel bod gwerth y bobl yn cael ei werthfawrogi.

Dylid rhoi cyfle i bobl ac anabledau arbennig e.e. yr ystod o Awtistiaeth sydd yn cynnwys Syndrom Asperger, gael cyfleoedd addas ar gyfer eu meddylfryd fel sgiliau technoleg Gwybodaeth neu ystadegau.

Dylai'r rhai hynny sydd yn ofalwyr o berthnasau sâl neu hen gael eu cydnabod trwy ddarpariaeth o fudd-daliadau yn gyfartal â chyflog gyffredin fel cydnabyddiaeth o'r hyn maent yn ei wneud.

Dylid annog lleihau biwrocratiaeth ynghylch cyflogi person e.e. "gwyliau" Yswiriant Gwladol, ymlacio darpariaeth cyflog mamolaeth i fusnesau bach iawn, galluogi mwy o bobl i fod yn hunan-gyflogedig.

Blaenoriaeth D – Cydnabod cyfleoedd gwirfoddol fel paratoad am waith cyflogedig

Mae angen i'r diwaith cyfredol ennill sgiliau, fel eu bod yn barod i weithio, trwy gyfleoedd gwirfoddol (fel y rhai sydd yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan 'Vine Social Enterprises at Ikea Wales' ac eraill). Er nad ydy yn gyflogedig, mae'n baratoad angenrheidiol i fyd gwaith, dysgu i fod yn ddibynadwy, troi i fyny mewn pryd, cydweithio ag eraill, diwylliant o beidio rhoi esgusodion, a.y.y.b.

Dylai gwaith gwirfoddol e.e. gydag Elusen neu rhyw gyflogwr arall, gael ei gydnabod gan y Ganolfan Gwaith ar adroddiad y chwiliwr am waith fel ymdrech i baratoi am waith (a chael ei gynnwys ar unrhyw ffurflen gais am waith). Fodd bynnag, dylid gosod amddiffyniad mewn lle i sicrhau bod cyflogwyr potensial byth yn manteisio ar y fath lafur gwirfoddol.

Dylid annog yn fwyfwy Bancio Amser ('Time Banking').

Cyswllt Cristnogol

Y darlun beiblaidd o waith ydy yn bennaf bod Duw yn ei waith yn ffurfio'r greadigaeth wedi ymddiried awdurdod i ddynoliaeth dros stiwardiaeth y drefn greadigol (Genesis 1: 26-30) fel bod pawb â galwedigaeth i ymarfer eu talentau yn yr orchwyl yma.

Atgyfnerthwyd egwyddorion o gyfrifoldeb ac atebolrwydd yn nameg y talentau (Luc 19: 11-17).

Mae gan ddynion a menywod yr hawl a'r oblygiad i weithio gan mai dyma ddarpariaeth y gread (Genesis 1:28, 2:15) a ail-adroddwyd yn y salmau (Salm 104:23) a'r Testament Newydd (2 Thesalonaiad 3:6-13; 1 Timotheus 5:8).

Nid ydy'r dealltwriaeth Beiblaidd o waith i'w gyfyngu i waith cyflogedig yn unig.

Newid Amgylcheddol /Newid Hinsawdd

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Cymryd Datblygiad Cynaliadwy O Ddifrif

Dylai Llywodraeth Cymru anrhydeddu ei cyfansoddiad a cheisio gweithredu ei holl bwrpasau gyda datblygiad cynaliadwy yn fwriad egwyddorol allweddol - mae hyn yn gorfod datblygu fel gweithrediad tu hwnt i'r Weinidog yr Amgylchfyd yn unig! Edrychwn am gymhelliad arbennig i weld:

1. Cynnydd dilys ac arwyddocaol yn anelu at 'Gymru Un Planed' gyda chymhelliad cadwedig i 'ôl troedio eco' fel y prif techneg o fentora (h.y. mesur yr effaith rydym yn cael -yn cynnwys y defnydd o adnoddau mewn-foriwyd a theithio tramor, yn enwedig hedfan).
2. Cefnogaeth barhaus o gymdeithas sifil Cymreig i gael cysylltiad ag agenda datblygiad cynaliadwy yma a mewn partneriaeth â chymunedau dros y byd.

Blaenoriaeth B – Dyhead am Gymru Carbon-Sero Erbyn 2030

Mae'r llwybr i'r diben yma dros Brydain wedi ei amlinellu gan y Ganolfan Dros Technoleg Amgen ond rydym yn cydnabod nad ydy'r holl bwerau sydd eisiau ar gyfer ei weithrediad yn bodoli yng Nghymru. Fodd bynnag, ceisiwn ymroddiad ynghylch y gweithrediad perthnasol gan gynnwys:

1. Arweiniad Llywodraeth Gymreig a llywodraeth leol trwy 'osod eu tŷ yn drefnus' yn enwedig yn nhermau y defnydd o egni a chaffaeliad.
2. Defnyddio pwerau datganolwyd, ei hystad ei hun a raglenni trawsgronni yr Undeb Ewropeaidd yn effeithiol i ,er enghetafft, gynyddu atafaeliad carbon yn y dirwedd Gymreig tra yn lleihau yn sylweddol gwastraff nwyon tŷ gwydr oddiwrth amaethyddiaeth Cymru.
3. Sicrhau bod gwariant ar gludiad yn canolbwyntio ar ddarparu opsiynau cynaliadwy â'r lleihad o nwy tŷ gwydr a gwastraff annymunol arall fel prif amcan.

Blaenoriaeth C – Pwyslais ar Gynhyrchu Trydan Adnewyddadwy

Mae'r pwyslais ar drydan fel rhan allweddol o'r cynhwysiad egni yn debygol o gynyddu wrth ein bod yn newid i geir trydan a mwy o wresogi trydan (pymphiau gwresogi). Dylir archwilio pob math o drydan adnewyddadwy – yn cynnwys gwynt atraeth ag alldraeth, pŵer o'r haul a dŵr. Dylai bod pwyslais penodol ar bŵer o'r tonnau ac o'r llanw.

Dylir annog pŵer o fomas adnewyddadwy (gan gynnwys bionwy) dim ond ble mae'r gwres'gwastraff' yn cael ei ailennill fel rhan o uned gwres a phŵer cyfunol. Gan bod y rhan fwyaf o drydan adnewyddadwy yn ysbeidiol, dylai'r datblygiad o dechnoleg storffeydd fynd law-yn-law â defnyddio'r gallu i gynhyrchu - yn enwedig storfa wedi ei bympio a chynhyrchiad o hydrogen /methan trwy electrolysis. Mae eisiau adnewyddu'r grid trydan fel ei fod yn adlewyrchu patrwm newydd o generadiad mwy lleol.

Blaenoriaeth Ch – Tai Cynaliadwy

Mae gwastraff egni trwy cynllunio tai gwael yn fater holl-bwysig. Dylai tai newydd gael eu adeiladu at y safonau carbon isel gorau, yn enwedig yn nhermau defnydd ynysu a'r defnydd parhaol o egni isel .Dylir ymdrechu yn daer i gynnal y gwelliant yn statws y stoc presennol o dai, yn ceisio ei godi i lefel C o leiaf ar raddfa safonau cyfredol o Dystoliaethau Perfformiad Egni. Fel blaenoriaeth, dylir cynnwys egni carbon gwres isel (haul, thermol, stofau tanwydd coed effeithlon a boelerydd a phymphiau gwres), yn ogystal a'r stoc cyfredol a newydd o adeiladu. Dylai'r system cynllunio sicrhau bod tai newydd wedi eu lleoli i alluogi gwasanaeth effeithlon gan gludiad cyhoeddus.

Blaenoriaeth D – Gweithio Tuag At Gwastraff Sero

Mae'r prif wastraff yn deillio o gynhyrchiad o garbon - yn nhermau adnoddau carbon ac adnoddau naturiol cyfyngedig eraill sydd wedi eu defnyddio mewn gwneuthuriad, a'r cynhyrchiad o methan o dir-lenwad. Dylir anelu at dir-lenwad sero a'r gweithrediad o 'hierarchaeth gwastraff' (lleihau, ail-ddefnyddio, ailgylchu, adfer). Bydd hyn yn golygu ystyriaeth gofalus, ond dylai gynnwys cwtogi'r defnydd o becynau, y defnydd o dreilwyr anaerobig i brosesu cymaint o wastraff bioddiraddadwy parod â phosib, a'r defnydd o wres rheolaethol priodol yn cyfuno gwres a phŵerau llosgi'n ulw ar gyfer gwastraff (dilys) gweddillol.

Casgliad

Cydnabyddwn bod hyn yn bwnc anferth a chymleth ac yr unig beth allwn ei wneud ydy 'crafu'r arwyneb' yn y mater yma ond credwn bod yr amcanion hyn, fel yr amlinellwyd, nid yn unig yn gam pwysig yn ein gofal o gread Duw, ond byddent yn darparu hwb holl-bwysig i'r economi - yn nhermau'r ymchwil a'r cynhyrchiad o'r technolegau newydd hyn, a thrwy greu swyddi yn niwylliant adeiladu wrth bod isadeiledd newydd yn cael ei sefydlu, tai newydd yn cael eu adeiladu a hen dai yn cael eu adfer. Cydnabyddwn bod y cymhelliadau rydym yn ceisio angen gwariant sylweddol ond rydym yn bendant bod hyn yn cynnwys buddsoddiad doeth iawn a fyddai'n negyddu 'r angen am fwy byth o fuddsoddiad yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn cymeradwyo'r pwyntiau yma i'r rhai sydd yn ceisio llywodraethu Cymru yn ein enw.

Cyswllt Cristnogol.

Mae gofalu am y byd naturiol yn bwysig i Gristnogion. O'r dechrau, mae'r ysgrythur yn dysgu bod Duw wedi ei greu a rhoi arglwyddiaeth (h.y. cyfrifoldeb) i ddynoliaeth drosto, gan ein gwahodd i 'weithio a gofalu amdano.' Hefyd, mae gennym mandad oddiwrth Dduw i ofalu am 'y dieithryn, yr amddifad a'r weddw' - y tlotaf yng nghymdeithas. Mae ein methiant i ofalu am y cread, yn enwedig trwy ein rhan mewn newid hinsawdd, hefyd yn ymosodiad ar y rhai hynny sydd yn ein cymdeithas- yn enwedig mewn gwledydd â phoblogaeth mwy niferus.

Fel Cristnogion, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros y methiant yma, ac yn gorfod wynebu'r her i wella ac amddiffyn ein byd. O fewn y pryder cyffredinol yma, derbyniwn y dystiolaeth gwyddonol a'r consensws sydd yn goleubwyntio newid hinsawdd fel y bygythiad mwyaf i'n planed, a cheisiwn arafu ac wedyn gwrth-droi dylanwad gor-ddefnyddio adnoddau'r ddaear a'r rhan mae dynoliaeth wedi chwarae yn yr argyfwng.

Gyda'r dealltwriaeth yma, rydym yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru am ei ymrwymiad i Gymru cynaliadwy, ond mae eisiau gweld y geiriau hynny yn cael eu trosglwyddo i weithredoedd. I'r diben yma, rydym yn galw am ragor o gymhelliad i'r eitemau uchod:

Cydraddoldeb

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Pawb yn gyfartal

Rydym i gyd wedi ein gwneud gan Dduw a felly dylem fod o werth cyfartal i'n gilydd

Blaenoriaeth B – Dylai holl weithgareddau'r Llywodraeth hybu ac amddiffyn parch ac urddas cyfartal i bawb

Mae cymdeithas wâr yn un sydd yn delio yn deg â'i holl aelodau gyda pharch ac urddas cyfartal trwy eu bywydau ac yn un lle mae pob gweithigaredd y llywodraeth yn efelychu a pharchu hynny

Blaenoriaeth C – Hawl i rannu, trafod a herio'n gilydd yn ôl ein gwahanol gwerthoedd a chredoau

Dylai'r agenda dinesig ehangach efelychu'r hawl gan unigolion a grwpiau i ddal systemau gwerthoedd a chredoau a byw yn eu hól mor belled ag y bod y credoau hynny yn hybu ac amddiffyn cydraddoldeb pob aelod o'r ddynoliaeth.

Mae pawb mewn cymdeithas â'r hawl i rannu a thrafod y gwerthoedd a chredoau hynny.

Mae hyn yn golygu hefyd bod unigolion a grwpiau â'r hawl i herio gwerthoedd a gweithredoedd ei gilydd.

Cyswllt Cristnogol

Pwrpas y datganiad yma ydy darparu fframwaith clir o fewn yr hyn y gall polisïau cael eu datblygu. Mae'n efelychu agwedd Cristnogol Beiblaidd at gydraddoldeb, yn seiliedig ar esiampl yr Iesu oedd yn agored i bawb ond bob amser yn barod i herio a chael ei herio. Ein man cychwyn ydy Genesis 1:27 : 'Creodd Duw y byd ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef ; yn wryw ac yn fenyw y creodd Duw hwy.'. Ond rydym i gyd yn gyfartal yn gallu cael pethau'n anghywir:

Rhufeiniaid 3:23: '...maent oll wedi pechu ac yn amddifad o ogoniant Duw'. Felly rydym yn credu bod pawb yn bwysig ac o werth cyfartal i Dduw a dylai pawb cael eu hymdrin yn gyfartal, gyda chwarteisi, urddas a chyfiawnder.

Teuluoedd

Cyflwyniad

Y cyswllt gorau er mwyn ffurfio cymunedau sefydlog ydy un o berthynasau sefydlog o fewn cymdeithas. Mae hyn yn gosod cynnal priodas a bywyd teuluol wrth galon cymdeithas iach. Mae ystadegau yn dangos bod 48% o'r holl blant a aned heddiw yn mynd i weld perthynas eu rhieni yn methu [1]. Mae'r methiant ym mherthynas y pâr yn cael dylanwad uniongyrchol ar gwrs bywyd a ffyniant y plentyn, gan gymathu yn uniongyrchol gwerth perthynas pâr sefydlog yn uniongyrchol â phlentyndod sefydlog [2]. Mae gwybod bod priodasau iach yn creu'r canlyniad gorau, nid yn unig i barau ond yn yr un modd i blant, yn gwneud blaenoriaeth o gynhaliaeth i deuluoedd yng Nghymru.

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Ymyriad cynnar a chynhalieth

Mae cynhaliaeth ataliol mewn rôl rhiant a pherthynasau llawer mwy gost-effeithiol yn y pen draw na chost ymyriad mewn argyfwng [1] a [3]. Mae cyflwyno cynhaliaeth yn gynnar yn y berthynas yn darparu sgiliau anghenrheidiol ar adegau allweddol bywyd, gyda'r canlyniad bod pobl yn fwy abl i ddelio â phroblemau pan eu bod yn digwydd.

Blaenoriaeth B – Newid diwylliant

Mae methiant perthynasau yn costio'r Llywodraeth Prydeinig amcangyfrif o £44 biliwn y flwyddyn [4], felly mae yna les amlwg i economi Cymru trwy gyfarparu er mwyn atal chwalfa perthynasau a galluogi teuluoedd i adeiladu perthnasau cadarn a iach. Mae'n bwysig bod yna sylw i hyrwyddo buddion cynnal perthynasau teuluol ym mhob cyfnod bywyd – mewn cyfnodau da ynghyd â'r rhai drwg – er mwyn newid y canfyddiad diwylliannol mai dim ond mewn argyfwng mae cynnal perthnasedd yn ddefnyddiol, neu yn anghenrheidiol.

Blaenoriaeth C – Dileu tlodi plant

Dylai bolisi'r Llywodraeth anelu at gryfhau bywyd teuluol a chynnal teuluoedd dros sbectrum angen. O gymryd methiant teuluol yng nghyswllt tlodi plant, mae canlyniadau plant ym meysydd iechyd addysg a chyllid yn gysylltiedig yn agos at yr uned teuluol [1] a [3]. Gan taw tlodi yn aml ydy'r rheswm a'r effaith am fethiant teuluol, mae'n hanfodol ymgymryd â'r cwestiwn hwn yn y strategaeth gyfan gwbl.

Blaenoriaeth Ch – Model darpariaeth cymunedol ei sail

Mae ymchwil yn dangos mai'r dull mwyaf addas o drosglwyddo cynhaliaeth teuluol ydy trwy gyfarparu pobl i ddarparu mesurau ar lefel lleol. [3] Mae dulliau fel addysg perthynasau ataliol sydd ar gael trwy pyrth cymunedol yn golygu bod mwy o bobl yn elwa a bydd hwn yn cael yr effaith o wrth-gyhuddio'r cysyniad. Gellir gweld eglwysi, a sefydliadau ffydd eraill, y gweithle, swyddfeydd cofrestru, canolfannau cymunedol, meddygon, ymwelwyr iechyd, ysgolion a.y.y.b., fel manau cyfarfod lle mae cynhaliaeth yn hawdd ei chael.

Blaenoriaeth D – Mentrau yn y gweithle

Dylir annog ffurfwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu ysgogiadau gyda chyflogwyr i hybu cydbwysedd buddiol o waith a bywyd. Gallai mentrau yn y gweithle gynnwys darpariaeth addas ar gyfer plant ac annog pobl cyflogedig i gael perthynas o ansawdd yn y cartref. Bydd hyn yn lleihau effaith absenoldeb o'r gwaith oherwydd anhawsterau teuluol.

Cyswllt Cristnogol

Mae Cristnogion yn credu bod priodi wedi ei sefydlu gan Dduw ar adeg y cread i fod yn sylfaen i'r amgylchedd ble mae cenedlaethau o blant yn gallu cael eu geni, eu caru, eu magu a'u meithrin i aeddfedrwydd emosiynol a chorfforol. (Genesis 2:24). Bydd ffurfio cymdeithas iach felly yn gysylltiedig â'r pwysigrwydd mae yn gosod ar gryfder a gwydnwch perthnasau, priodi a bywyd teuluol.

[1] 'Forgotten Families', Centre for Social Justice 2012

[2] Cowan and Cowan 2011.

[3] 'Stable Relationships for a Stable Society', Relate 2012

[4] 'Counting the Cost of Family Failure', 2012 Update, The Relationship Foundation.

Cyllid a Threthiad

Blaenoriaethau:

Blaenoriaeth A – Ystyried Amnewid Fformiwla Barnett

Tra bod ystyriaeth yn cael ei roi i amnewid Fformiwla Barnett, ni ddylai fod gostyngiad yn y trawsgronni i Gymru yn ystod y broses.

Blaenoriaeth B – Unrhyw Amnewid i'r Fformiwla Barnett i fod yn Seiliedig ar Angen

Mae gan Fformiwla Barnett y rhinwedd o symlrwydd, ond os mae cytundeb ei fod yn cael ei amnewid ar sail angen, yna ni ddylai fod gostyngiad yn nhrawsgronni cymharol i Gymru.

Blaenoriaeth C – Agwedd Newydd at Gynllunio Hir-Dymor I Alluogi Cyllid na Chafodd ei Ddefnyddio I Rolio Drosodd Dros Pum Mlynedd

Dylai fod mwy o hyblygrwydd mewn trawsgronni i gyrff cyhoeddus gyda mynediad rhydd i gronfeydd a gasglwyd dros y blynyddoedd blaenorol. Byddai hyn yn galluogi gwell cynllunio hir-dymor.

Blaenoriaeth Ch – Adrannau Menter Newydd i Greu Trawsgronni ar gyfer Cyrff Cyhoeddus ond Dim Pŵerau Codi Treth i Gymru

Ni welwn lles arbennig mewn cael pwerau i godi trethiadau tu allan i San Steffan. Dydy'r pŵer i wneud hynny ddim yn golygu y byddai'r gallu yn cael ei weithredu, yn yr union fodd nad ydy'r Alban wedi defnyddio ei pŵer i godi trethiadau mor belled. Dylai cyrff cyhoeddus fodd bynnag gael yr hawl i godi trethiadau yn annibynnol o'r Trysorlys trwy weithredu adrannau 'menter' lle posib.

Cyswllt Cristnogol

Mathew 22.17-21

17 Dywed wrthym, felly, beth yw dy farn: a yw'n gyfreithlon talu treth i Gesar, ai nad yw?

18 Deallodd Iesu eu dichell a dywedodd, 'Pam ydych yn rhoi prawf arnaf, ragrithwyr?'

19 'Dangoswch i mi ddarn arian y dreth.

20 'Llun ac arysgrif pwy sydd yma?'

21 Dywedasant wrtho 'Cesar.' Yna meddai ef wrthynt, 'Talwch felly bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw.'

Rhufeiniaid 13:6, 7

6 Dyma pam hefyd yr ydych yn talu trethi, oherwydd gwasanaethu Duw y mae'r awdurdodau wrth fod yn ddyfal yn ygwaith hwn'.

7 Talwch i bob un ohonynt beth bynnag sy'n ddyledus iddo, boed dreth, boed doll, boed barch, boed anrhydedd.

Galatiaid 2

10 Eu hunig gais oedd ein bod i gofio'r tlodion.

Felly:

- 1. Mae'n iawn bod llywodraethau yn codi ac i bobl i dalu trethiadau.*
- 2. Mae rhaid darparu ar gyfer y tlawd bob amser.*

Iechyd a Boddhad

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Mae iechyd da yn gorfod cydnabod a hybu gwasanaethau caplaniaeth

1. Dylir gosod ffens amddiffyn o gwmpas cyllidebau caplaniaeth.
2. Dylir cydnabod pwysigrwydd parhâd mewnbyn caplaniaeth yn y daith o'r ysbyty i'r gymuned.
3. Dylir creu system genedlaethol fel y gall ysbytai enwi ficeriaid, gweinidogion a bugeiliaid sydd yn cynnal ymweliadau ysbyty, o gofio'r ffaith bod tua 25 o enwadau yng Nghymru a nifer helaeth o eglwysi annibynnol.

Blaenoriaeth B – Dylir hybu gofal ysbrydol fel elfen integredig o ofal iechyd da

1. Dylir asesu dylanwad rheoliadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i sicrhau darpariaeth iechyd ysbrydol addas ar gyfer cleifion.
2. Dylir rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i bwysigrwydd elfen grefyddol y gofal ysbrydol sydd nid yn unig am ymdrin pobl â pharch.
3. Dylir cydnabod ac annog y rôl mae staff NHS di-gaplan yn chwarae yn y ddarpariaeth mewn agweddau arbennig o ofal ysbrydol.

Blaenoriaeth C – Dylir cydnabod yn ffurfiol a hybu gofal iechyd yr holl berson yng nghyswllt

1. Y cysylltiadau rhwng y person a'r gymuned a goblygiadau afleoliad yng nghyswllt diffyg hunan-barch a'r risg sydd yn dilyn o ganlyniadau gormododd o alcohol, cymryd cyffuriau, bwyta er mwyn cysur, ysmegu, a.y.y.b.
2. Pwysigrwydd sefydlogrwydd teuluol a rôl tadau yng nghyswllt hunan-werth fel yswiriant yn hwyrach yn erbyn ymddigad o gymryd risg. Dylir gwneud buddsoddiad mewn cynlluniau sydd yn cefnogi priodas a pherthynasau er mwyn hybu sefydlogrwydd teuluol.
3. Cost gofal iechyd oherwydd unigrwydd a buddsoddiad mewn mentrau yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

Blaenoriaeth Ch – Dylai'r buddsoddiad mewn atal affiechyd gynnwys y canlynol

1. Anogaeth o gyfleoedd rhad o chwaraeon ac ymafer corff eraill i bob oedran. Hefyd, darparu lleoedd i fod yn fywiog, yn enwedig i deuluoedd â phlant dan 5.
2. Hybu bwyta iach, er enghraifft siopau cydweithredol bwyd iach' mewn ysgolion, yn enwedig i deuluoedd gyda phlant o dan 5.
3. Mwy o fuddsoddiant mewn addysg a) ar gyfer gordewdra, yn delio â'r mamau gordew bydd yn cael plant a fydd yn wrthiannol i insiwlin a felly yn fwy tebygol o fod yn ordew .b) ar gyfer syndrom alcohol y ffetws, yn delio â'r risg bod mamau sydd yn ddibynnol ar alcohol yn esgor ar blant â syndrom alcohol y ffetws c) annog bwydo ar y fron, peidio ag ysmegu a rhyw diogel.

Blaenoriaeth D – Dylai'r polisi iechyd canlynol gael ei ailymweld

Ni ddylid darparu'r pilsen y bore ar ôl rhyw yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc oherwydd ei fod yn creu amgylchfyd lle maent yn gwybod eu bod yn gallu cael rhyw hyd yn oed os nad oes ganddynt gwrth-genhedlu wrth law, yn cyfiawnhau cymryd llai gofal, a nid ydy yn delio â heintiau y'u trosglwyddir yn rhywiol.

Blaenoriaeth Dd – Dylid gwella gofal o'r henoed a'r rhai ar ddiwedd eu hoes trwy fabwysiadu a buddsoddi mwy yn y polisiâu canlynol

1. Gofal lliniarol yn y cartref.
2. Hyfforddiant gofal lliniarol i bob meddyg yn cynnwys secondiadau i dai cysur ('hospices').
3. Gofal tai cysur.

Blaenoriaeth E – Dylid gweithredu fel bod mantais llawn yn cael ei gymryd o'r berthynas amlwg rhwng ffydd crefyddol a iechyd a boddhad trwy

1. Partneru yn fwy eang gyda prosiectau llwyddiannus o'r sector Cristnogol Gwirfoddol yng Nghymru fel bod pobl yn gynyddol yn cael y **dewis** o fynediad i wasanaethau yng nghyswllt ethos ffydd. (O gofio bod ymrwymiad i hybu amrywiaeth a dewis, y dyhead gan rai pobl am fynediad i wasanaethau mewn cydestyn ethos ffydd a'r cysylltiad rhwng ffydd, iechyd, a boddhad, mae 'r polisi yma yn arbennig o gymhellgar.)
2. Darpariaeth o ddogfen yn debyg i 'myth busters' a luniwyd gan Lywodraeth Llafur yn Lloegr (ac a gafodd ei ardystio gan y llywodraeth bresennol) o dan nawdd yr Adran Dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, i helpu sicrhau nad yw prosiectau lles yn seiliedig ar ffydd yn cael eu rhwystro mewn unrhyw ffordd.
3. Datblygiad o raglen buddsoddiad llywodraethol yn y Sector Wirfoddol Cristnogol o prosiectau cymunedol o etholfraint fel ag y sydd yn Lloegr, ac ar sylfaen gyfartal.

Cyswllt Cristnogol

Bendith Duw yw gwraidd pob iechyd da a boddhad. Mae salwch a marwolaeth yn ran o'n profiad dynol ond mae cariad Duw at ei fyd yn sicrhau bod ei fab Iesu Grist wedi dod er mwyn dwyn gobaith. Trwy Iesu gwelwn yn fwyaf eglur ei ymrwymiad i sefydlu ei deyrnas ar y ddaear wrth iddo ddysgu ei ddisgyblion i weddio 'deled dy deyrnas a gwneled dy ewyllys ar y ddaear fel yn y nefoedd'. Mae hyn yn dod â gobaith o faddeuant, perthnasau wedi eu hadfer, iachâd, iechyd a boddhad fel ag y gwelwn yng ngweinidogaeth Iesu a'i ddisgyblion. Mae'r ffaith nad oedd yr eglwys fore yn gweld yr angen i ddod â iachâd yn unig trwy gwyrthiau yn caei ei bwysleisio'n huawdl gan y ffaith fod un o ysgrifennwyr yr efengylau a recordiodd nifer o wyrthiau Iesu, Luc, yn ddoctor.

Tai a Digartrefedd

(Gan gynnwys y Gymuned Ddigartef a Chynnal Pobl)

Cyflwyniad

Er bod gan Gymru ar gyfartaledd lefel uwch o gartrefi cymunedol (wedi eu darparu gan awdurdodau lleol a chymdeithasau cartrefi) mae hyn yn cael ei ddileu gan y lefelau uwch o amddifadedd a diweithdra nag sydd yng ngweddill y Deyrnas Gyfun.

Rhown groeso i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Gartrefi a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012, sydd wedi dangos ymroddiad i gartrefi fel prif flaenoriaeth.

Blaenoriaethau

Polisi Tai

Blaenoriaeth A – Safonau Ansawdd Tai

Mae lefelau cyllido yn ddigonol i alluogi darparwyr tai cymdeithasol i gyflawni eu goblygiadau i godi tai o safon (sef i Safon Ansawdd Cartrefi Cymreig).

Blaenoriaeth B – Cartrefi â Ffocws Cymunedol

Dylai darpariaeth cartrefi fod:

1. Wedi ei chysylltu ag agwedd gyfannol o gymuned, yn darparu tai fel y gellir bod yn agos at waith, addysg ac adnoddau'r wladwriaeth lles ynghlwm wrth ddarpariaeth o gyfleodd gwaith o wahanol maint (fel yr anogwyd ym mhwyntiau'r maniffesto yn y grŵp ar gyflogaeth).
2. Yn hybu datblygiad asedau cymunedol ag eithrio eiddo fel bod cyllid yn gallu cael ei fuddsoddi (gydag adenillion) yn y cymunedau a'r mentrau cymunedol. Mae hyn yn well na ffocysu ar eiddo wedi ei rhenti: tai wedi eu adeiladu i gyrraedd anghenion pobl yn hytrach na buddsoddiadau portffolio. Dylid hefyd ymchwilio adnewyddu tai sydd yn bodoli yn barod.
3. Yn cynnwys stoc hyblyg o dai a ellir eu defnyddio i ateb anghenion pobl sengl a theuluoedd. Dylai tai fod o faint digonol i alluogi rhieni sydd wedi eu ymddieithrio gael dod ynghyd â'u teuluoedd, er mwyn i blant gael addysg, ac i'w gofalwyr gefnogi aelodau anghenus o'r teulu, i bobl â gwahanol anghenion corfforol i gael tai mewn modd integredig.

Blaenoriaeth C – Tai a Chymunedau Ffydd

1. Sefydlu a chynnal cysylltiad rhwng gwneuthurwyr polisi a'r cymunedau ffydd ymhob awdurdod lleol trwy apwyntio Swyddogion Ffydd Cyswllt.
2. Hybu ymglymiad ystyrlon i denantiaid ac ymestyn allan i grwpiau ffydd er mwyn darparu 'gwerth ychwanegol' i wasanaethau tai a chynnal cysylltiedig.
3. I sefydlu Gwasanaeth Tir ac Eiddo Eglwysig yng Nghymru i alluogi eglwysi i ryddhau tir ychwanegol ac adeiladau yn arbennig ar gyfer tai, felly yn creu banc o fewn cyrraedd a ddylai cyflymu adeiladu tai newydd.

Gwasanaethau i'r Gymuned Digartef

Blaenoriaeth Ch – Cynnal Ailsefydlu

1. Mae bod yn ddigartref mewn llawer ysytir yn ffurf o sefydliadoli ac y mae llawer aelod o'r gymuned wedi treulio amser maith mewn sefydliadau e.e. y lluoedd arfog, sefydliadau iechyd meddyliol (dim mor niferus nawr ac yr oedd mewn degawdau cynt), cyfundrefn y carchar a'r gyfundrefn gofal i blant. Dylid datblygu yn gynnar modd o ddileu digartrefedd trwy baratoi'n well ar gyfer bywyd ar ôl sefydliadau a thrwy cynnal ailsefydlu.

2. Dylid gweld gwasanaethau ailsefydlu a chymorth addas fel allweddi i ddarparu opsiynau tai cynaliadwy ynghlwm wrth alluogi pobl digartref i gymryd y cam at gael eu cartrefi eu hunain. Profwyd hyn mewn mentrau tai yn y gorffennol fel yr 'HMI Homeless Mentally Ill Initiative' yn Llundain. Dylid darparu adnoddau digonol i alluogi datblygiad gwasanaethau ailsefydlu trwy Gymru gyfan.

Blaenoriaeth D – Ailsefydlu Mewn Cymunedau Lleol

Dylid sefydlu pob gwasanaeth i'r digartref trwy'r gymuned leol gan alluogi ailsefydlu mewn ardal lle gall y person digartref mwynhau manteision cynhالياeth teuluol yn lle cael eu denu i'r dianasoedd mawr gan yr angen i gael bywoliaeth. Bydd hyn yn golygu'r darpariaeth o greu gwasanaethau ataliol, hosteliau ac ailsefydlu ac nid y rhwydwaith prin o hosteliau sydd yn gwahardd gymuned digartref o'i ardal. Mae angen lle posib i bobl digartref ailsefydlu yn agos at eu cymuned a'u cynhالياeth teuluol.

Blaenoriaeth Dd – Cynhالياeth Cymunedol i'r Digartref

1. Dylid darparu gwasanaethau cysylltiedig â'r gymuned digartref trwy ddatblygu consortia (grŵpiau o asiantaethau statudol a gwirfoddol sydd yn cydweithio gyda'r gymuned digartref).
2. Dylai awdurdodau lleol roddi, yn egwyddorol ac yn ymarferol, gynhالياeth i fentrau fel rhoddion cawl, basgedi bwyd a.y.y.b. (llawer ohonynt yn Gristnogol eu gwraidd, yn seiliedig ar sefydliadau cyfreithiol cymunedol).
3. Darpariaeth o gyngor a gwsanaethau ataliol yn ogystal â gwaith cynnal tenantiaeth, efallai wedi ei gyfrannu gan fentrau eglwysig.

Blaenoriaeth E – Adnabod yn Iawn Anghenion Llawn y Digartref

Dylid cael ystadegau coladedig i allu adnabod pob math o bobl digartref gan gynnwys syrffwyr sofffa a deall bod pob math o bobl digartref yn glwyfadwy, nid yn unig y rhai mewn categorïau mwy cul. Dylid ymchwilio'n ofalus amgylchiadau unigolyn ac nid ei ddiarddel os bydd anghenion yn cael eu darganfod.

Cynnal Pobl

Blaenoriaeth F – Cynhالياeth o'r Mwyaf Anghenus

Sicrhau bod yr aelodau mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas yn cael gwir gynhالياeth gan ffens terfyn oddiwrth cronfa Cynnal Pobl Trwy Gymru Gyfan er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn safonol wych ar gyfer y rhai mwyaf anghenus.

Blaenoriaeth Ff – Lleihau Tâp Coch yng Nghyfundrefn Cynnal Pobl

Atal darparwyr o dai lloches yn y gyfundrefn Cynnal Pobl (gan wneud i fyny am ddiffygion y budd-dal tai) fel y gellir rhyddhau pobl mewn oedran o dâp coch a biwrocratiaeth cysylltiedig. Wedyn bydd darparwyr tai yn gallu canolbwyntio ar adeiladu mwy o dai a chynnig gwasanaeth well i'w trigolion.

Cyswllt Cristnogol

Yn ystod ei weinidogaeth ar y ddaear, profodd yr Iesu gyflwr clwyfadwy y digartref.

Mathew 8:20 'A dywedodd yr Iesu wrtho, mae tyllau gan lwynogod ac y mae nythod gan adar y nef ond nid oes un mam lle y gall Mab y Dyn orwedd ei ben'.

O fewn y ffydd Gristnogol, mae traddodiad cryf o letygarwch at ddieithriaid a'r rhai hynny sydd heb gartref, fel modd o gynnwys a chofleidio'r bobl sydd wedi eu cau allan gan amgylchiadau fel prinder tai fforddiadwy a digonol. Trwy ddangos tosturi, rydym yn cyflawni ein galwedigaeth fel

disgyblion ac mewn llawer modd yn gwasanaethu Duw (Mathew 25 : 32-40).

Trwy hanes eang y mudiad tai, mae Cristnogion wedi bod yn y rheng flaen o annog datblygiad gydag enghreifftiau fel Octavia Hill, arloeswraig gynnar mewn tai cymunedol. Mae'r weinidogaeth yma wedi parhau o fewn Sefydliadau Tai a phrosiectau ochr yn ochr â'r cymunedau digartref. Parhau mae Cristnogion i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau a thrwy'r manifesto yma i gynnal a dylanwadu gwelliant sydd yn mynd yn ei flaen.

Masnach mewn Pobl

Cyflwyniad

Mae masnach mewn pobl ar hyn o bryd yn ansoddi bygythiad arswydus nid yn unig i ddioddefwyr tramor ond hefyd i les teuluoedd y Deyrnas Unedig. “Mae plentyn yn mynd ar goll yn y Deyrnas Unedig pob 3 munud” (25ain Mai 2012). <http://www.ceop.police.uk/Media-Centre/Press-Releases/2012/A-child-goes-missing-in-the-UK-every-three-minutes/> darllenwyd 20^{fed} February 2013). Yn yr un modd, mae erlyniadau wedi dangos bod cylchoedd difrïo yn symud eu dioddefwyr o gwmpas mewn byd 'côd-post' o farchnata. Mae plant a menywod y Deyrnas Unedig yn bennaf yn hynod o glwyfadwy. Y ffaith wleidyddol dychrynlyd ydy bod masnach mewn pobl yn drosedd pwerus, byd-eang, trefnus a allai ddinistrio bywydau unrhyw rai ohonom. Y tri man a nodwyd yn gyson sydd eisiau **ymdrech mwy cydunol yn y Deyrnas Unedig** (er enghraifft yn ôl *Grŵp Gweinidogol Rhyng-Adrannol ar wrth-fasnach mewn pobl 2012 [1.12]*), ydy (1) *casglu data a rhannu gwybodaeth*, (2) *hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer bobl proffesiynol yn y rheng flaen* a (3) *cydlyniad o weithrediadau ataliol*. Mae'r tri yma wedi helpu i ffurfio sylfaen y cynyngion isod. Trafodir ymarferoldeb cyllido ar y diwedd.

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Codi-ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Proffesiynol a Gwirfoddol

Ymwybyddiaeth

Dylir fod ymrwymiad ar lefelau cenhedlaethol a lleol yng Nghymru mewn ymgyrch o oddefiad-sero ar fasnach mewn pobl yn yr un modd â'r un a weithredwyd yn erbyn trais yn erbyn menywod, a dylai ganolbwyntio ar raglen barhaus o godi-ymwybyddiaeth ymysg gwleidyddion eu hunain.

Hyfforddiant

Dylai'r hyfforddiant wrth-fasnacha mewn pobl sydd yn cymryd lle yn barod yn lluoedd yr heddlu gael eu barhau mewn cyflwyniadau cam-wrth-gam, yn enwedig trwy'r heddlu mwyaf, De Cymru. Dylai gael ei gynnal fel mesur safonol o'r rhaglen sefydlu trwy ddatblygiad reolaidd personol. Yn yr un modd, dylai hyfforddiant gyrraedd gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, er enghraifft gweithwyr iechyd cymunedol a staff ysbytai (yn enwedig ym Mhediatreg) ond hefyd meddygon a'u derbynyddion, gweinyddwyr a nyrsis. Yn allweddol bwysig, dylai hyfforddiant gyrraedd *gweithwyr cymdeithasol a staff mewn cartrefi plant ac ysgolion uwchradd a chynradd*. Dylai fersiynau addas, o bosib yn defnyddio Technoleg Gwybodaeth a chyfryngau newydd, agor yn fwy i sefydliadau anllywodreathol a'r sector wirfoddol yn ogystal â rhaedru mewn i bob math o gyrisiau sefydliadol mewn lleoedd cyhoeddus a phreifat.

Blaenoriaeth B – Cydlyniad ac Ymdrech Cydunol

Dylai'r apwyntiad arloesol yng Nghymru o Gydlynnydd Wrth-Fasnacha Mewn Pobl llawn-amser gael ei sefydlu yn rhan o strategaeth hir-dymor nes bod Cymru yn cael ei gweld fel amgylchfyd sydd yn hollol elyniaethus ac anghynladwy i fasnach mewn pobl. Ac yn y cyfamser am y dyfodol rhagweladwy, dylai'r canlynol cael eu datblygu yng Nghymru:

1. Polisi datblygol, Wrth-Fasnacha mewn pobl, sydd wedi ei ledaenu'n drylwyr,
2. Ymroddiad wleidyddol, barhaus i gyfranogiad Cymreig o'r holl ymdrechion aml-ddisgyblaeth a chroes-Lywodraeth yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys cynigion a geisiwyd i broblemau a'u cynigion peilot,
3. Cydnabyddiaeth swyddogol mwy eang o, a chyd-weithrediad â'r sefydliadau anllywodraethol perthnasol, yn ymgynghori â nhw a'u helpu gydag addysg, diweddarau, hyfforddiant, materion cyfeiriadol, ac o bosib gwasanaethau cyfieithu,
4. Rhannu arbenigedd yn gynyddol rhwng yr holl heddluoedd, fel ymarferiad dda ac unrhyw ddatblygiadau newydd a adeiladwyd gan awdurdodau eraill, yn enwedig y rhai gerllaw,

5. mabwysiad ddisymwth o unrhyw ddeddfwriaeth addawol a brofwyd yn y DU sydd yn cynnig golwg fwy enbyd o erlyniad o fasnacha mewn pobl i'r drwgwneuthurwyr.

Blaenoriaeth C – Gofal o'r dioddefwr

1. Dylai awdurdodau ymroddi ymhellach i drin dioddefwyr sydd wedi eu masnacha fel dioddefwyr nid fel troseddwr, yn enwedig yn sefyllfa pobl ifanc, a ni ddylid gofyn am dystiolaeth eu bod wedi eu masnacha cyn bod ei bosibiliad wedi ei archwilio. Dylai'r heddlu gael eu adnoddau i ymchwilio'n fanwl ac yn reolaidd unrhyw honiad gan ddiodeffwr o fasnach mewn pobl a dylai'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ddarparu eiriolaeth effeithiol ddisymwth ar gyfer y person yn y cwestiwn (gweler 'IDMG' 4.8). A gan bod hyd yn oed datgeliad ar lafar yn gofyn am ddewrder arbennig a ffydd dieithr yn awdurdod, ni ddylai hynny fod yr unig anogaeth neu'r anogaeth angenrheidiol dros weithrediad. Dylai ymchwiliad i fasnacha pobl gael ei adnoddau pryd bynnag y mae yna hyd yn oed drwgdybiaeth neu debygolrwydd ohono (er enghraifft mewn rhai troseddau yn y diwydiant rhyw).
2. Fe ddylai asianthaethau dderbyn pob cynhaliath sydd angen yn eu gwaith o gadw dioddefwyr sydd wedi eu gwaredu yn ddiogel, yn hysbys, wedi eu cynnal ac yn ddiogel o ail-fasnacha.

Blaenoriaeth Ch – Casglu Data a Rhannu Gwybodaeth

Dylai awdurdodau mynd ymlaen i ystyried gyda phenderfyniad ac mewn modd creadigol sut i greu'r cyflyrau gorau i rannu gwybodaeth heb dorri rheolau'r deddfwriaeth diogelu data, er enghraifft gadael i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CATHM) wybod os oes drwgdybiaeth o drosedd twyll trethiadau.

Blaenoriaeth D – Ail-fasnacha yn enwedig o blant

“Mae plant sydd wedi eu dwyn yn enwedig o wlad estron wedi eu methu a'u anghenion wedi eu anwybyddu oherwydd bod yr awdurdodau yn ystyried masnacha plant fel mater o reoli mewnfudiad. [*Adroddiad o'r Cyd-Ymchwiliad i blant ar goll o leoedd gofal (2012 tudalen 10).*]

Dylai dioddefwyr sydd wedi eu camddefnyddio ymysg a gan ein poblogaeth, boed yn bwrpasol neu beidio, dderbyn amddiffynfa, gofal, parch a chydymdeimlad oddiwrth ein adnoddau cyhoeddus a'n cyfraith. I osgoi bod dioddefwyr tramor yn cael eu ail-fasnacha, dylent gael ymgartrefu os ydy eu gwlad yn rhy beryglus iddynt ddychwel yno (er enghraifft, yr hyn a elwir y Maffia Romanaidd). Dylai awdurdodau delio â'r mater o ail-fasnacha pobl ifanc sydd eisoes wedi eu masnacha unwaith yn enwedig. Gallai diogelwch dioddefwyr gael ei gyrraedd trwy alluogi disgresiwn arbennig ynghylch addasrwydd yr erlyniad. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos penderfynu oed ble mae'n cael ei ddiffinio yn wahaniaethol am wahanol resymau (gellir priodi yn 16 oed, gellir priodi yn 18 oed). Dylid hwyluso ail-gartrefu os byddai'r diodeffwr eisieu hynny.

Blaenoriaeth Dd – Cyllido

O fewn terfynau cyllidol, dylir cynnal y cyllid am y mentrau wrth-fasnacha a awgrymwyd uchod nes bod Cymru yn cael ei adnabod fel amgylchfyd wrth-fasnacha mewn Pobl. Dylai gwneuthurwyr polisi a'r llywodraeth cydnabod bod arbediaeth o gostau trwy ofalu am ddiodeffwyr fel yr amlinellwyd uchod yn lleihau'r arian a warir ar weithrediadau cyfreithiol, weithwyr cymdeithasol a iechyd. Mae ail-fasnacha nid yn unig yn achosu diodeffaint hir-dymor ond yn llyncu cyllid wrth ailadrodd gweithgareddau a threfniadaethau. Yn olaf, dylai'r budd-daliadau bonws gael eu ceisio o'r cipiad o gyfoeth anghyfreithlon troseddwr yn y DU ac hyd yn oed dros y môr.

Cyswllt Cristnogol

Roedd rhai rhannau hŷn o'r Beibl yn ymgymhwyso ffurfiau cyfyng o 'gaethiwed' fel taliad o ddyled neu cosb sifil er mwyn lleihau newyn neu farwolaeth mewn byd diffyg-ymgynhaliaeth. Ond mae'r Ysgrythurau bob amser yn gwahardd yn hallt traffigo tra hefyd yn lliniaru creulondeb caethiwed er gwaethed un neu ddau destun dyrys.

Addawodd yr Iesu y byddai ef yn cyflawni proffwydoliaeth Iddewig trwy godi pob gormes (Luc 4. 16-21). Roedd diwylliant Rhufeinig, er ei fod weithiau yn hynaws, ar y cyfan yn ystyried caethweision fel math israddol o ddynoliaeth. Roedd caethweision (tua trydydd ran o'r boblogaeth) wedi dod yn gonglfaen, anhepgor economaidd. Doedd yr eglwysi 'cyw bach' dan erlidigaeth ddim yn gallu gobeithio y byddent yn gorchfygu hyn. Ond roedd eu neges yn tanseilio'n farwol yr ymarferiad. Roedd caethweision a'u perchnogion yn un teulu yn nheyrnas uwch yr Iesu, yn meddu'n gyfartal yr urddas o fod yn ddynol (Gal.3.28, Effesiaid 1.6,7-9cf. 2.15); Colosiaid 4:1, Philemon 1.16). Roedd triniaeth y perchnogion o'u caethweision yn ffurf o wasanaeth iddynt ac i Dduw (Ephesiaid 6.9). Lefelodd pechod cyffredinol a chariad achubol Duw pob person o flaen yr Arglwydd (Rhufeiniaid 3, 23, 24) ac arweiniodd hyn yn ddi-ildio at ddileu caethwasiaeth trwy Cristnogaeth ymhob ffurf o gaethiwed ac yn enwedig traffig dynol.

Materion Rhyngwladol

Cyflwyniad

Er bod materion rhyngwladol yn dod yn bennaf o dan reolaeth Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, mae yna nifer o fecanweithiau yn gweithredu fel bod pleidiau gwleidyddol Cymreig a Llywodraeth Cymru yn gallu cysylltu'n gyfreithlon yn y materion hyn.

1. Cymdeithas Prydeinig Gwyddelig y Senedd
2. Cymdeithas Cymanwlad y Senedd
3. Pwyllgor Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd
4. Cyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd
5. Deddf Llywodraeth Cymru 2006 paragraff 62
6. Rhaglen Cymru Dros Affrica
7. Cenadaethau Masnach

Blaenoriaeth A – Hawliau Dynol

Am gynhالياeth barhaol i raglen Cymru Dros Affrica ac i ddatblygu agenda yr hawliau dynol o'i mewn.

I gryfhau'r cyswllt rhwng hawliau dynol â chydweithrediad economaidd y cenadaethau masnach Cymreig a pherthynas dwy-ochrog yr Uned Ewropeaidd â gwledydd eraill.

Blaenoriaeth B – Rhyddid Cred/ Rhyddid Crefyddol

1. I siarad yn ddewr ar faterion rhyngwladol lle mae rhyddid cred - yn cynnwys y rhyddid i beidio credu a'r rhyddid i newid crefydd neu cred – yn cael ei wahardd a lle mae grwpiau ffydd yn cael eu erlid.
2. I siarad yn ddewr mewn cefnogaeth o Gristnogion sydd yn cael eu erlid yn y byd, yn cynnwys gwledydd lle mae presenoldeb hanesyddol yr Eglwys dan fygythiad.

Blaenoriaeth C – Traffig Dynol

1. I gynnal cysylltiadau cymdeithas sifil Cymreig â mentrau wrth-traffig sydd yn rhyngwrwydio a datblygu o fewn rhaglen Cymru Dros Affrica.
2. Am gynhالياeth cyllidol parhaol i Gydlynnydd Wrth-Draffig Dynol Cymru a'r datblygiad o'r rôl i gynnwys ymladd traffig dynol mewn gwledydd craidd.

Blaenoriaeth Ch – Hawliau Merched

1. I osod rhaglen addysgol ar gyfer hawliau merched i hybu datblygiad o bartneriaethau trwy raglen Cymru Dros Affrica.
2. I ddarganfod ffyrdd newydd o ddelio â materion ynghylch llurguniad cenheidiol benywaidd trwy raglen Cymru Dros Affrica.

Blaenoriaeth D – Cyfiawnder Economaidd a Masnachol

1. I Gymru i gymryd y blaen wrth gynnal tryloywder treth a masnach deg yn eu gwasanaethau ennill busnes.
2. I adeiladu ar y Siarter Datblygiad Cynhaliol er mwyn galluogi busnesau yng Nghymru i ystyried effaith economaidd a chymdeithasol eu gweithredoedd ar wledydd sydd yn datblygu, yn ogystal â chyfrannu at y weledigaeth o Gymru cynhaliol.

Blaenoriaeth Dd – Newid Hinsoddol

1. I ddal i weithio tuag at ymrwymadau i leihau carbon trwy annog newid ymddygiad dros bob sector, i Gymru i arwain ar lefel hollfydol, yn hybu cyrhaeddiad a thargedau trwy Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol Dros Ddatblygiad Cynhaliol a defnyddio eu safle i alw am weithrediad cadarn rhyngwladol ar newid hinsoddol.

2. I Gymru i ddal i dyfu ei rhaglen Partneriaeth Newid Hinsoddol er mwyn benthyca medrusrwydd technegol i wledydd wedi eu bygwth gan effeithiau newid hinsoddol.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r Ysgrythur yn cadarnhau bod pobl o bob cenedl yn rhannu dynoliaeth yn gyffredin (Actau 17:26) ac i gyd yn rhannu'r un urddas o fod wedi eu creu 'yn nelw Duw' (h.y. bod rhywbeth o natur Duw wedi ei sathru yn ein hunaniaeth). Credwn fod y cariad a'r urddas mae Duw wedi ei roddi i bawb yn enedigaeth-fraint i holl bobloedd y byd. Fel Cristnogion, felly, rydym yn ymrwymedig i hawliau dynol, yn cynnwys y rhyddid i addoli ac i gredu (neu beidio credu) yn ôl eu cydwybod, tegwch rhwng cenhedloedd, ac amddiffynfa i'r gwan a'r clwyfadwy.

Cyfiawnder

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Mynediad i Gyfiawnder

Does dim wir gyfiawnder os ydy'r mynediad i gyfiawnder yn cael ei wrthod. Mae Deddf Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Gymorth Cyfreithiol, Deddfrydu a Chosbu Troseddwy, 2012 yn lleihau yn eithafol y mynediad i gyngor rhad ac am ddim trwy hyd a lled cymunedau Cymru. Mae yn golygu bod y rhai hynny sydd heb y modd i dalu am gyngor wyneb-yn-wyneb, mewn llawer achos, yn methu cael mynediad i gyngor o gwbl.

Bydd eisiau gweithrediad i leddfu'r pwysau ar y maen sylfeinol yma yn ein cymdeithas. Gall a dylai'r mynediad i gyfiawnder gael ei amddiffyn trwy ddarparu adnoddau addas a thrwy parhau i hybu awdurdodau lleol i gynnal darparwyr o gyngor cyfreithiol lleol a rhad. Mae trefniadau ar y gweill yn barod ac maent yn dangos bod cyd-weithrediad cadarnhaol yn bosib rhwng y Llywodraeth Gymreig a Lleol gyda darparwyr gwasanaethau er mwyn cadw mynediad teg i gyfiawnder.

Blaenoriaeth B – Cyfiawnder Atgyweiriol

Rydym yn cymeradwyo'r egwyddor o gyfiawnder atgyweiriol fel modd o dalu'r iawn i gymunedau sydd wedi eu effeithio gan drosedd. Defnyddiwyd yr egwyddor yma yn Ne Affrig ôl-apartheid i wynebu'r anghyfiawnderau yn erbyn y gymuned ac i ddarparu iachâd ac adferiad rhwng y rhai a effeithiwyd.

Yng Nghymru, gyda llawer o gymunedau yn dioddef effeithiau trosedd, mae cyfiawnder atgyweiriol yn cynnig ateb blaengar i'r creithiau dwfn a all barhau am genedlaethau fel arall. Mae hefyd yn cynnig gwir ddiwygiad a thrawsnewidiad i'r rhai sydd yn troseddu; felly mae yn bwysig i gynnal a gweithredu mentrau sydd yn ceisio cynyddu cydlyniad cymdeithasol ac adferiad cymunedol ynghlwm wrth egwyddorion Cyfiawnder Atgyweiriol.

Yn y materion a ganlyn, cydnabyddwn bod cyfrifoldeb uniongyrchol y Llywodraeth Gymreig yn gyfyngedig ond gobeithiwn bod dylanwad yn cael ei roddi ar lywodraeth San Steffan ynghylch -

Blaenoriaeth C – Dedfrydu Amhenderfynedig

Credwn bod dedfrydu amhenderfynedig yn anghyfiawn, yn enwedig pan nad yw'r gweithrediad ohono naill ai yn dryloyw nac yn agored i gael ei herio. Mae'n gadael pŵer yn ddichonol a mympwyol yn nwylo unigolion anatebol, ac mae'r ansicrwydd mae yn creu ym meddyliau'r carcharorion yn rwystr i'w gallu i baratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i garchar. O leiaf, dylai'r rhesymau dros adolygiadau o ddeddfrydau amhenderfynedig gael eu esbonio a bod yn agored i apêl.

Blaenoriaeth Ch – Effeithiau niweidiol diwylliant ymgyfreithgar 'Iechyd a Diogelwch.'

Wrth gwrs, mae angen parhaol am beth iawndal cyfreithiol ar gyfer anafiadau mawr a cholled â achoswyd gan esgeulusdod difrifol. Fodd bynnag, mae tŵf yn niwylliant ymgyfreithgar oherwydd y ddeddf 'Iechyd a Diogelwch' yn dod â nifer o ganlyniadau dianghenraid a digynorthwyol - o ysgolion a chlybiau ieuencid sydd bellach heb yr hyder i drefnu teithiau ac achlysuron, i gostiau yswriant sydd yn talu ffioedd cyfreithwyr, i gostiau i'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol sydd yn bygwth lefelau o driniaeth. Dydy'r pethau hyn ddim yn gynorthwyol, yn fforddiadwy nac yn gyfiawn, ac mae eisiau gweithrediad pendant er mwyn atal hyn.

Cyswllt Cristnogol

Mae cyfiawnder yn werth sylfaenol – 'Sut alla i dalu i'r Arglwydd? I hybu cyfiawnder...' (Micah 6.8, Beibl.net). Un o nodweddion trawiadol pobl Duw yn yr Hen Destament oedd bod pob aelod o'r gymuned yn gyfartal o dan hawliau cyfiawnder: roedd y llywodraeth uchaf a'r mewnfudwr mwyaf ymyleiddiedig yn gytûn yn atebol i gyfraith Duw ac yn deilwng o'i amddiffyniad. Mae Cristnogion yn etifeddu'r syniad yma o gyfiawnder fel hawl a gorchymyn cyffredinol a roddwyd gan Dduw, ac yr ydym yn dal i gadarnhau cydraddoldeb pawb yn wyneb deddfau cymdeithas a Duw. Hefyd rydym yn cadarnhau'r persbectif beiblaidd bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni nid yn unig pan mae'r troseddwr yn cael ei gosbu ond hefyd pan mae gwerthoedd cadarn a chyfiawn yn trechu.

Llywodraeth Leol

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Blaenoriaethau Gwasanaeth

Dylai gwasanaethau Llywodraeth Leol targedu'r rhai mwyaf anghenus.

1. Ymroddiad i sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu ymhob polisi cymdeithasol, ac yn cael ei gynnal gan gynlluniau gwasanaethol sydd yn sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn derbyn gwasanaethau.
2. Polisiâu clir bydd yn galluogi pobl i ddod allan o dlodi.
3. Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i ddiffinio 'gwasanaethau craidd' mewn cyfnod cyllidol llym.

Blaenoriaeth B – Arweinyddiaeth Gymunedol

Dylai'r Llywodraeth Leol rhoi arweinyddiaeth trwy cynnig dealltwriaeth o anghenion eu cymuned a darparu cyfeiriad ynglŷn ag ateb eu gofynion.

1. Galluogi Awdurdodau Lleol i benderfynu beth sydd yn fuddiol i'w cymunedau ac i weithredu cynlluniau sydd yn gallu hybu cyfoeth yr ardal ac ansawdd bywyd y dinasyddion.
2. Darparu cyflyrau sydd yn hybu cydweithrediadau rhwng Awdurdodau ac asiantaethau.

Blaenoriaeth C – Partneriaeth

Mae gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus yn rhoi cyfleoedd i'r cymunedau ffydd i ddarparu rhai gwasanaethau cymunedol

1. Adnabod gwerth cynnal cymunedau ffydd trwy ddarparu gwasanaethau cymunedol ac ataliol i'r gymuned leol (e.e. darpariaeth dyddiol i blant a phobl oedrannus), grwpiau rhieni, arweiniad priodasol, cyngor ar ddyled, a.y.y.b).
2. Galluogi cymunedau ffydd i gael meddaint ar adeiladau dianghenraid a thir fel canolfan o ddarpariaeth gwasanaethol.

Blaenoriaeth Ch – Trethiant Teg

Nid ydy'r modd presennol o Drethiant Cyngor yn ymddangos yn deg a chyfiawn.

Ymroddiad i bwysu am fodd o drethiant llywodraeth leol a chymorth sydd wedi eu seilio ar adnoddau i'w gwario gan y dinasyddion.

Blaenoriaeth D – Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd Mwy Clir

Mae llawer o ddryswch ynglŷn â rôliau'r haenau o Lywodraeth a'r dryswch ynghylch atebolrwydd oherwydd bod rhai aelodau yn dueddol i ymyrryd yn swyddogaethau'r haenau isaf.

1. Ymroddiad clir i'r egwyddor o hunan-lywodraeth gan gymunedau
2. Ymroddiad i adolygu pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gorau ar ba haen o Lywodraeth (h.y. Cyngor y Gymuned, Awdurdodau Unedol, y Llywodraeth Gymreig/Y Cynulliad).

Cyswllt Cristnogol

Mae pedwar egwyddor ysgrythurol yn adlewyrchu'r mesuriad o flaenoriaethau.

- i. Mae holl ffurfiau o Lywodraeth wedi eu sefydlu gan Dduw ar gyfer trefniant cymdeithas.*
- ii Dylai ymyriad mewn Llywodraeth Leol adlewyrchu gwerthoedd gwâs.*
- iii Dylai awdurdodau ddangos gofal arbennig am y tlawd a'r rhai sydd a'r anghenion mwyaf.*
- iv Mae eglwysi a grwpiau ffydd eraill yn adnoddau cymunedol pwysig, ac mewn safle da i wynebu ystod o anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol mewn partneriaeth â'r Llywodraeth.*

Y Cyfryngau

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Mae Eisiau Rheoliad Cyfyngedig

Corff rheoledig annibynnol ar gyfer moeseg cyfryngol sydd yn gallu cadw'r cyfryngau yn atebol.

Blaenoriaeth B – Portread o Ffydd

Mae cynrychioliad gwybodus a chywir o ffydd yn angenrheidiol ar gyfer dadl sifil cyhoeddus.

Blaenoriaeth C – Cynhaliaeth Ategol i'r Iaith Gymraeg

Fframwaith cyllidol a rheoledig sydd yn cynnal a chefnogi'r modd y mae'r cyfryngau yn ymdrin â'r iaith Gymraeg ar lefelau lleol a lluosog.

Blaenoriaeth Ch – Addysg ac Hyfforddiant Moesegol

Achredu cyrsiau cyfryngau'r prifysgolion sydd yn ceisio elfen cadarn o hyfforddiant moesegol a hunan-feirniadol

Cyswllt Cristnogol

Mae angen i ddiwynyddiaeth o'r cyfryngau gael ei wreiddio yn y gwirionedd bod Duw wedi gwneud ei hun yn hysbys ac eisiau cael ei ddarganfod gan ei gread. Mae wedi datguddio ei hun yn unigryw yn Iesu Grist. Gan bod dynoliaeth yn cario delwedd Duw, mae'r angen i gyfathrebu â'n gilydd mewn sawl cyfrwng yn agwedd sylfaenol o fywyd dynol.

Iechyd Meddyliol

Cyflwyniad

Mae'r canlynol yn awgrymiadau o sut i gynwys yr 'ysbrydol' er mwyn hybu iachâd o'r problemau iechyd meddyliol mae pobl yn profi yn ystod eu bywydau.

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – I Gymunedau Ffydd gael eu gweld fel rhan allweddol o'r Adnoddau Gofal Sylfaenol ar gyfer boddhad emosiynol, hybu iechyd meddyliol ac adferiad ar ôl afiechyd meddyliol

I gario ymlaen y partneriaeth â sefydliadau statudol ac anstatudol ac iddynt gael eu cynnwys mewn pecynnau gofal. Mae Cymunedau Ffydd yn gallu cynnig sawl cyfle o weithrediad cymdeithasol, er enghraifft: Gwirfoddoli mewn awyrgylch o hybu adferiad 'gobeithiol', Cynlluniau 'Engagement Gateway', dalgadweithiau, Gwaith Ieuenctid, Banciau Bwyd, Bugeiliaid y Stryd, llochesau i'r Ddi-gartref, canolfannau cyngor ar ddyled, Cyrsiau Datblygiad Personol a chysylltu â grŵpiau sydd yn anodd i'w cyrraedd. Gallant hefyd gynnig cefnogaeth ysbrydol trwy wasanaeth cyngori a Gweddi.

Blaenoriaeth B – I gynnal proffil a thrawsgronni Caplaniaethau o fewn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol

Fel bod gweithwyr ymroddedig yn gallu hybu lles emosiynol ac ysbrydol y rhai hynny sydd â ffydd neu hebdo, anogaeth o iechyd meddyliol ac adferiad ar ôl afiechyd meddyliol.

Blaenoriaeth C – Am i llythrennedd emosiynol, gwydnwch, datblygiad moesol ac ysbrydol gael eu blaenoriaethu o fewn addysg

Er mwyn helpu i atal afiechyd meddyliol ymysg pobl ifainc. ac felly mewn oedolaeth.

Blaenoriaeth Ch – Am hyfforddiant cyfannol i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a staff di-statudol i ateb gofynion ysbrydolrwydd

Gydol oes.

Blaenoriaeth D – Aelod Iechyd Meddyliol dynodedig yn Llywodraeth Cymru

Cyswllt Cristnogol

Mae'r Iesu yn dweud 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl' (Luc 10:27). Mae hyn yn awgrymu bod gennym gwahanol rannau i'n hunain: corfforol, emosiynol ac ysbrydol. Gall yr holl rannau yma fod yn iach ond gallant fod yn sâl hefyd.

Yn aml mae afiechyd corfforol yn weladwy fel torri asgwrn. Gall afiechyd emosiynol fod yn gudd ac ymddangos fel mater o afiechyd meddyliol. Mae hyn yn gallu bod mor ddifrodus â thorri coes. Anwybyddir ochr ysbrydol ein bywydau yn aml ac eto mae'r Iesu yn awgrymu bod yr elfennau yma ynghlwm.

Moesoldeb, Gwleidyddiaeth a Llywodraeth - Rôl Cydwybod, Gwerthoedd a'r Natur Ddynol

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Y gwahaniaeth rhwng cydwybod a darpariaeth gyfreithlon

Dylai unrhyw drafodaeth o bolisi cyhoeddus ystyried yr angen i gydnabod bod yna wahaniaeth angenrheidiol rhwng y fath gwerthoedd moesol â gonestrwydd a ffyddlondeb a'r darpariaethau cyfreithlon sydd eisiau mewn unrhyw gymdeithas sifil.

Blaenoriaeth B – Goddefgarwch a Pharch

Dylai gwleidyddwyr gychwyn a hybu diwylliant o drafodaeth brwd mewn materion o gydwybod. Byddai tystiolaeth o hyn yn weledig pan fo ysbryd o oddefgarwch, grâs, gwrandio parchus ac astudrwydd mewn achosion o gydwybod personol. Dylai hyn effeithio'r ffordd y mae'r holl broses o ddemocratiaeth yn cael ei ddilyn yn ogystal â ffurfio ymddangosiad unrhyw maniffesto.

Blaenoriaeth C – Rhyddid i bleidleisio yn ôl cydwybod

Dylai gwleidyddwyr unigol gael llawer mwy o ryddid cydwybod ar unrhyw bleidleisiau allweddol yn delio â materion o foisoldeb cynhennus, heb ofni neu ddiodef cerydd ac anfantais.

Blaenoriaeth Ch – Gonestrwydd Personol

Dylai'r blaenoriaethau hyn gael eu cyflenwi gan bwyslais adnewyddol ar yr angen am y safonau uchaf o foisoldeb ym mywyd cyhoeddus, tra 'n cydnabod y ffaith fod y natur ddynol yn peri fod pob unigolyn yn amherffaith.

Blaenoriaeth D – Datganiadau Polisi

Dylai datganiadau polisi gael eu fframio o fewn disgrifiad tryloyw ac addysgiadol o werthoedd a safonau gwaelodol y blaid, ac o'r gonestrwydd personol a ddisgwylir o'i aelodau. Dylid cyfeirio at ddisgyblaeth bleidiol a'r modd y gallai gael ei gymhwyso os byddai angen.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r Beibl yn cadarnhau urddas dynolryw (Genesis 1: 26-28), urddas meddwl y ddynoliaeth (Rhufeiniaid 12:1-3) ac uchafiaeth cydwybod (Rhufeiniaid 14:10-12). Mae'n cynnig inni sylfaen o werthoedd moesol wedi eu profi dros amser a'r dealltwriaeth o beth sydd yn boddhau 'r Duw sydd yn rhoi ac yn cynnal bywyd ac yn datguddio'i hun yn bennaf yn Iesu Grist, â chymeriad felly yn un o wirionedd ac o gariad. Mae'r Beibl hefyd yn cynnig asesiad real a pherthnasol o 'r natur ddynol a'i potensial am dda neu ddrwg ac yn dangos inni fel mae nerth yn gallu bod yn niweidiol ac eilunaddolgar

Mae dylanwad gostyngol y Beibl yn ein diwylliant cyfoes wedi creu o ganlyniad amgylchfyd cyrydol o sinigiaeth, difaterwch yn ogystal â diffyg ffydd yng ngwleidyddwyr a'r broses wleidyddol yn gyffredinol. Mae gwir angen wynebu'r materion yma a bydd adnewyddu'r pwyslais ar bwysigrwydd cydwybod a gwerth trafodaeth yn helpu wrthsefyll yr argyfwng cynyddol yn y broses ddemocratiaidd cyfoes.

Pobl Oedrannus

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Newid Diwylliannol

Dylai pobl oedrannus cael eu gwerthfawrogi fel aelodau sydd yn cyfrannu at gymdeithas a'u trin â pharch ac anrhydedd.

1. Adolygu effeithiolrwydd Strategaeth Dros Bobl Mewn Oed yng Nghymru'.
2. Sefydlu rhaglen cenedlaethol yn anelu at bob adran o gymdeithas, yn cynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn creu newid yn agwedd cymdeithas gyfan tuag at bobl mewn oed.

Blaenoriaeth B – Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dylai pobl mewn oed gael mynediad i'r gwasanaethau cymdeithasol integredig o iechyd a gofal sydd yn addas ar eu cyfer, gan gynnwys gofal arbenigol i'r rhai yn dioddef o orddryswch.

1. Sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau gofal a iechyd integredig yn cynnig y gofal iawn, yn y lle a'r adeg iawn, i alluogi bobl mewn oed i gadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.
2. Gweithrediad o gynllun cyfiawn a chyffredinol sydd yn godiant am wasanaethau gofal yn annog pobl i wneud eu darparaethau eu hunan o ran cartrefi a phensiynau ymddeoliad.

Blaenoriaeth C – Galluogi

Dylai pobl mewn oed gael mynediad i wybodaeth a chynhaliath o nifer eang o ffynnonhellau i'w helpu i fyw bywydau annibynnol

1. Cynhaliath i gymunedau ffydd ddarparu gwybodaeth a chymorth wrth ateb gofynion cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol pobl oedrannus.

Blaenoriaeth Ch – Cyfranogiad

Gall pobl mewn oed fod yn adnodd pwysig i gyfoethogi eu cymunedau a gall cymunedau helpu pobl mewn oed i wynebu'r gwahanol heriau sydd yn eu wynebu yng nghyswllt unigedd a phroblemau teithio

1. Hybu a datblygu mentrau sydd yn annog cyfranogiad gan bobl oedrannus mewn materioncyhoeddus a fydd yn ychwanegu at les personol y cyfranogwr yn ogystal â chyfoethogi profiadau'r gymuned.
2. Ehangu ystod y gwasanaeth cludiant cymunedol y gallai pobl oedrannus ddefnyddio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Blaenoriaeth D – Adnoddau

Mae rhai pobl yn gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran arian, ac eraill yn byw ar adnoddau prin iawn.

1. Datblygu gwasanaethau cyngor er mwyn galluogi oedolion i wneud trefniadau ar gyfer eu dyfodol, eu pensiynau a'u anghenion tai.
2. Datblygu cynhaliath i bobl mewn oedran sydd yn dioddef tlodi tanwydd fel eu bod yn gallu cael mynediad i'r holl pecynnau buddion sydd ar gael.

Cyswllt Cristnogol

Mae'r Beibl yn trafod hen oed gyda gobaith a realaeth. Mae'n cyfeirio at hen oed yn nhermau amser o ogoniant a dathliad, ffrwyth bywyd duwiol. (Diarhebbion 4:18; Salm 92:14). Mae hefyd yn darlunio llun llawer mwy heriol o hen oed (Pregethwr 12:1). Adlewyrchir y ddau persbectif yn ein blaenoriaethau.

Adfywiad a Menter Cymdeithasol

Blaenoriaethau

Adfywiad yng Nghymru

Yn unol â'r egwyddorion uchod, cynigwn bod y gweithrediadau canlynol yn cymryd lle i annog Adfywiad dros Gymru:

Blaenoriaeth A – Gweithrediadau sydd yn deillio o'r gymuned - i gryfhau yr ymdeimlad o gymuned (yn cyfoethogi 'cyfalaf cymdeithasol')

1. Lluosogi sefydliadau ymbarel lleol sydd yn hunan-lywodraethol ac yn gynrychiolaidd (er enghraifft Partneriaethau cymunedol Lleol, Cynulliadau'r Bobl, Ymddiriolaethau Datblygu) sydd yn hybu democratiaeth cyfranogol yn tarddu 'o'r gwaelod'.
2. Datblygu ymyriadau adfywiol integredig, harneisio'r addysg leol, cyflogaeth, gweithrediadau materol ac isadeiledd, cyfleoedd busnes, eglwysi a grwpiau cymunedol, ac yn y blaen.
3. Gweithio'n agos gyda phawb mewn modd ystyrlon, cymunedol, creadigol er lles y gymuned leol, gan osgoi diwylliant o ddibyniad.

Blaenoriaeth B – Yr Economi a Chyllido

1. Datblygu beth a elwir yn 'economiâu bio-rhanbarthol' dros Gymru. Mae'r dull bio-rhanbarthol yn ceisio ethig newydd o dreiliant sydd yn blaenorieithu lleoliad, atebolrwydd a rialtwch yn lle ehangiad ac elw; mae'n cynnig symud y ffocws i ffwrdd o elwau tuag at ddarparu; ac mae'n cymryd yn ganiataol yr ailgyfeiriadaeth o waith, oddiwrth cyflogaeth tuag at fywioliaeth.
2. Uno ffrydiau nawdd o bob ffynhonnell, o dan ymbarel sefydliadau lleol.
3. Ariannu pryniant tir segur a/ neu adeiladau ar gyfer y gymuned.
4. Cymhwysu egwyddorion o fenter cymdeithasol (lles cymdeithasol a moesegol) i holl prosiectau â bwriadau adfywiad.
5. Cysylltu cyllid i ganlyniadau (effeithiau cymdeithasol a moesegol), yn seiliedig ar gynlluniau ariannol cynhaliol.
6. Cynnal integreiddio'r di-freintiedig a'r rhai sydd wedi eu gwahardd gan gymdeithas.

Blaenoriaeth C – Addysg ac Hyfforddiant

1. Rhoi addysg ar gael i bawb, gan greu cymunedau dysgu.
2. Cyllido prentisieithau, profiad gwaith a gwirfoddoli, yn gysylltiedig â'r colegau lleol a'r mentrau cymunedol lleol.
3. Sicrhau bod hyfforddiant yn arwain at gyflogaeth ystyrlon yn yr economi rhanbarthol.

Blaenoriaeth Ch – Isadeiledd

1. Cysylltu llafur lleol mewn adeiladu ac adnewyddu tai fforddiadwy i Ansawdd Safonau Tai Cymru gydag adrannau o gynhwysiad cymdeithasol yn y cyfamodau.
2. Datblygu isadeiledd effeithiol i alluogi adfywiad lleol.

Menter Cymdeithasol yng Nghymru

Yn unol â'r egwyddorion uchod, awgrymwm fod y gweithrediadau canlynol yn hybu Menter Cymdeithasol dros Gymru:

Blaenoriaeth D – Strategol

1. Diweddarau ac adnodd Strategaeth Menter Cymdeithasol i Gymru gan gynnwys datblygiad economeg biorhanbarthol a sefydliadau ymbarel lleol.
2. Sicrhau adnodd cyson i Uned Menter Cymdeithasol dros Gymru, er mwyn dechrau a chynnal y gweithrediadau isod.
3. Sefydlu banciau cymunedol/ datblygol, i noddi cymdeithasau menter lleol ac undebau credyd.
4. Sefydlu ffyrdd effeithiol ac effeithlon i roddi cytundebau gwasanaethau cyhoeddus i ddarparwyr lleol/ mentrau cymdeithasol, yn cynnwys eglwysi a grwpiau cymunedol.

Blaenoriaeth Dd – Gweithredol

1. Galluogi datblygiad mentrau cymdeithasol fel rhan o ddatblygu economi bio-rhanbarthol; cyd-weithrediadau lleol â sylfaen adeiladol.
2. Sicrhau bod pob menter cymdeithasol sydd yn derbyn cyllid cyhoeddus yn gweithredu ar sail 'Atebolrwydd Seiliwyd ar Ganlyniadau' i ddatblygu effeithiolrwydd o ran lles cymdeithasol. Datblygu a lluosogi dros Gymru y mentrau a busnesau cymdeithasol sydd ag enw da o ran gwaith.
3. Darganfod ymhob cymuned di-freintiedig yr entreprenewyr cymdeithasol, y philanthropwyr ac arweinwyr naturiol y gymuned sydd yn byw yn gyfagos ac yna eu noddi, nid fel arbenigwyr allanol.
4. Ffocysu Mentrau Cymdeithasol ar ddefnydd cynhaliol o adnoddau lleol. Hybu partneriaeth o fentrau cymdeithasol ynghyd ag arweinwyr busnes lleol. Mae gan nifer fawr o bobl busnes egwyddorion cadarn iawn ym maes gweithrediadau ac yn ymddwyn yn foisol yn y gymdeithas. Atebolrwydd Seiliwyd ar Ganlyniadau' i rwydweithio yn fentrus yr adnoddau a'r gwasanaethau o sefydliadau gwirfoddol ac elusenol yn cynnwys eglwysi, i ychwanegu gwerth strategol a gweithredol i'r datblygiad gymunedol lleol

Cyswllt Cristnogol

Yn unol â'r ffydd sydd ganddynt yn y Beibl a dysgeidiaeth Iesu Grist, mae'r mwyafrif o'r 200,000 o Gristnogion sydd yn mynychu eglwysi yng Nghymru â gweledigaeth o gymdeithas iach, nid gweledigaeth o unigolion iach yn unig. Credant fod gan ffyniant dimensiynau cymdeithasol yn ogystal ag unigol. O ystyried hyn, gwelant yr adfywiad o gymdeithasau difreintiedig, gan gynnwys gwaith ystyrion, yn flaenoriaeth.

*Bydd yr **egwyddorion** a ganlyn, yn unol â'r ffydd Gristnogol, yn sylfaenol i lunio **Adfywiad a Menter** er lles y gymdeithas.*

1. Unigolion a'r Gymuned

a) Dinasyddion i'w gweld fel rhai sydd o fewn y gymuned, nid fel unigolion arunig.

b) Boddhad a ffyniant i'w gweld fel y cyfoeth eithaf- gan ymdrechu dros boddhad unigol a chymdeithasol, nid yn unig yn nhermau cynnydd cyllidol.

c) Hawliau a chyfrifoldebau i bawb; rydym oll yn roddwyr ac yn dderbynwyr. Dyma beth yn rhannol ydy bod yn ddynol yn ôl Cristnogion.

2. Moeseg Gwaith

- a) Gwaith ystyrion i'w weld yn nhermau lles cymdeithasol dros gyfanrwydd cymdeithasol, nid fel y bwriad pennaf oll.*
- b) Dylai'r cynhyrchiad o gyfoeth cyfrannu at gyfiawnder a chymdeithas moesegol, nid bod yn fwriad pennaf oll.*
- c) Dylid argeisio datblygiad cynaliadwy o fewn 'bio-rhanbarthau' cymdeithasol - economaidd.*
- d) Dylai gweithrediad gymuned-ganolog gael ei seilio ar dystiolaeth yn deillio o ymchwil.*

3. Addysg a Datblygiad Gydol Oes

- a) Addysg gydol oes i fod y norm diwylliannol. Mae'r Gymuned i ddod oddifewn; bydd cynnydd meddyliol ag ysbrydol yn canlyn cynnydd mewn cyfoeth cymdeithasol.*

Gwledig a Ffarmio

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Gweinidog Llawn Amser dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig (ond mae'r canlynol yn Flaenoriaethau hyd yn oed heb weinidog neilltuol)

1. I gynnwys amaethyddiaeth yn flaenoriaeth clir a gweladwy.
2. I sicrhau bod anghenion amaethyddiaeth a busnesau gwledig eraill yn cael eu ystyried yn flaenoriaethau pan yn penderfynnu polisi a rheoliadau.
3. Yn cael ei osod y dasg o wneud pob agwedd o wneud llwyddiant o bob agwedd o'r economi gwledig.
4. I ddatblygu polisi clir, cynaladwy ac effeithiol ar glefydau anifeiliaid yn enwedig TB Buchod mewn cynghoriaeth â'r rhai hynny sydd yn cael eu effeithio mwyaf, gan roi blaenoriaeth i'w hangenion.
5. Cefndir o ddealltwriaeth clir o'r materion
6. I weithio o fewn dealltwriaeth clir o'r diffiniad o wledig (yn cynnwys y busnesau, pobl a thai sydd yn cael eu hystyried yn wledig er eu bod yn ddaeryddol/ wleidyddol o fewn ffiniau eraill)
7. Dealltwriaeth gliriach o bwy sydd yn cynghori pwy a phwy sydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch rheoliadau, ail-ffurfio Polisi Amaethyddol Cyffredin – yr Undeb Ewropeaidd neu'r DU gwladol/ rhanbarthol/ lleol?
8. I gyrraedd lleihad dilys yn y mân reolau a biwrocratiaeth.
9. Efallai "Tsar Gwledig" i flaenoriaethu cefn gwlad a'i anghenion.

Blaenoriaeth B – Economi gwledig wedi ei ddiffinio gan ei amrywiaeth ac yn dibynnu ar ei phroffidioldeb ei hun

1. Cydnabod bod elw busnes yn anghenrheidiol ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.
2. Lleihau pŵer negyddol y prynwyr mawr rhyngwladol i wydroimarchnadoedd y cynhyrchwyr, er enghraifft, archfarchnadoedd, prynwyr graen - mae angen amrywiaeth o farchnadoedd ar gynhyrchwyr er mwyn gwella llif arian.
3. Anogaeth o fentergarwch, hyblygrwydd a hyfywdra trwy hyfforddiant ac addysg, cyllid a chngor arall, er enghraifft Cynhaliaeth cynllunio – er mwyn amrywiaeth, newidiad rheolaeth.
4. Anogaeth yn hytrach na phwysau i ddelio â newidiadau. Mynediad i gyngor busnes.
5. Cydnabod cyfyngiadau unigol, er enghraifft, Ffarmio tirwedd, daearyddaieth, oedran ffermwyr, ynysigrwydd, perchnogion unigol a.y.y.b.
6. Gwella atyniad ffermio i'r genhedlaeth nesaf.
7. Cydnabod gwerth pob math o fusnesau mewn cysylltiad â'i gilydd.
8. Cydnabod fod bodlonrwydd mewn busnes yn arwain at gwell lefel o gynaliadwyaeth.
9. Cymharol ryddid oddiwrth gyfyngiadau rheoliadol i ffermwyr/ perchnogion tir/ busnesau gwledig i gynhyrchu yr hyn y maent yn ystyried yn addas i gael cynhaliaeth oddiwrtho (lleihad o'r pellter rhwng penderfynwyr a busnes gwledig).
10. Diddyfnu dibyniaeth ar fudd-daliadau – economi ffug oherwydd costau gweinyddiaeth.a.y.y.b.

Blaenoriaeth C – Galluogi cymunedau

1. Mae eisiau gwrthdroi colli cymunedau pentrefi gwledig.
2. Annog y perthynas rhwng holl berchnogion banciau, defnyddwyr, gweidyddion, ffurfwyr o bolisi, awdurdodau lleol a chenhedlaethol, grwpiau cymunedol a.y.y.b.
3. Cynnal busnesau gwledig bach a meicro i adfer ymdeimlad o ganolfan i bentrefi er mwyn creu ymdeimlad o foddhad. Ffermydd agored, siopau pentref a.y.y.b.
4. Cydnabyddiaeth o werth yr eglwys o fewn cymunedau gwledig.
5. Cynhaliaeth o grwpiau cymunedol ac elusennau gwledig yn cydnabod na fydd y nifer o bobl

- bydd hyn yn cyrraedd bob amser yn uchel.
6. Lleihad neu ddifodiad o'r pellter – trwy prinder o wybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal â daearyddiaeth – rhwng ffurfwyr penderfyniad a chymunedau gwledig, amaethyddiaeth yn arbennig.
 7. Galluogi teuluoedd gwledig i aros o fewn pentrefi trwy amddiffyn addysg wledig sydd yn annog perthnasau cymunedol.
 8. Cynllunio polisiau sydd yn ystyried anghenion newidiol cymunedau pentrefol er enghraifft niferoedd uwch o bobl oedrannus, tai fforddiadwy a busnesau o gartrefi a.y.y.b?

Blaenoriaeth Ch – Cynhyrchu Bwyd

1. Cynhyrchu cynllun clir am y defnydd o dir yng Nghymru yn y dyfodol.
2. Polisiau gwledig i flaenoriaethu diogeliad bwyd cenhedlaethol.
3. Gwell hyrwyddiad o gynhyrchiad bwyd a chynnyrch eraill o gartref, twristiaeth bwyd gwledig.

Blaenoriaeth D – Cludiant a Chyfethrebiadau Eraill

1. Dylai cynlluniau ffyrdd gynnwys ymgynghoriadau â busnesau lleol a chymunedau eraill sydd yn gysylltiedig er mwyn sicrhau os, ym marn y busnesau a chymunedau hyn, mae rhain yn wir gwella cyfleoedd busnes neu yn eu niweidio.
2. Cyflymderau 'Band Llydan' ceblau ffeibr opteg i fod y 'norm'.
3. Eisiau adolygu'r dulliau gweithrediad o fynediad clir a rhwydd i ffurfwyr penderfyniadau dros gymunedau gwledig a ffermio.

Blaenoriaeth Dd – Darpariaeth Iechyd

1. Ystyriaeth o anghenion yr hunan-gynhaliol mewn busnesau bach/ meicro pan yn symud darpariaeth iechyd allan o'r fro.
2. Lleihau pellter teithio i'r gwasanaethau iechyd ar gyfer y claf a'r teulu/ gofalwyr.
3. Cydnabod niferoedd cleifion is mewn ardaloedd gwledig – cost i'r person unigol wastad yn debygol o fod yn fwy.

Cyswllt Cristnogol

Creodd Duw y ddaear gyda'r holl potensial i gynhyrchu popeth sydd ei eisiau i greu bywyd, a'r tyfiant, y blodau a'r anifeiliaid i breswyllo ynddo - a gwelodd Duw bod popeth yn dda. Hyd yn oed ar ôl y "cwmp", o Genesis a thrwy'r Beibl gyfan, gwelwn dyn yn cael ei annog i fyw o fewn y ddarpariaeth hon, yn gweithio mewn harmoni gyda'r Creawdwr, yn bobl amaethyddol. Yn nheyrnas Duw, mae popeth yn cyd-gysylltiedig; mae ffermio effeithiol yn waith sydd yn cynnal Cread Duw o fewn ei gynllun a'i amseriad er mwyn amddiffyn cynhaliaeth y dyfodol a mwynhad gan bawb o'r tir. Dysgodd yr Iesu yn aml mewn cydestun gwledig i'r rhai oedd yn cydnabod y berthynas oherwydd eu bod mor agos at y tir. Pa un yr ydym yn gweithio ar fferm neu yn mwynhau'r cynnyrch a'r tirwedd, rhaid i ni wneud hynny o fewn terfynau Duw oherwydd "mae'r llinynnau wedi syrthio i ni mewn manau dymunol" (Salm 16.6) ac er bod Deuteronomiwm 28 yn dweud wrthym am y fendith y bwriada Duw ar y ddaear, a phopeth ynddi, mae hyn yn fendith cyfamodol gyda chyfrifoldebau difrifol a roddwyd i ddynoliaeth i anrhydeddu'r Arglwydd.

Cydlyniad Cymdeithasol

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Gwleidyddiaeth

Bod gwleidyddion pan yn cynnig awgrymiadau economaidd a chymdeithasol yn arddangos y modd y bydd penderfyniadau yn y dyfodol agos yn effeithio'n gadarnhaol cydlyniad cymdeithasol. Bydd y llywodraeth yn awdurdodi 'r Comisiwn Archwilio i fonitro ac adrodd yn ôl ar gydlyniad cymdeithasol yn reolaidd ac yn systematig, gan roi blaenoriaeth cyfartal i Iechyd ac Addysg.

Blaenoriaeth B – Addysg

Bod y Weinyddiaeth Addysg ar gyfer pob oedran yn gorfodi ysgolion i addysgu cydlyniad cymdeithasol fel “werth craidd”, yn annog plant i barchu, mwynhau ac elwa oddiwrth amrywiaeth ethnig a chrefyddol yn hytrach nag ymateb yn negyddol iddo.

Blaenoriaeth C – Pobl Ifanc a Chyflogaeth

Bod gwleidyddion yn sicrhau ac arddangos eu bod yn buddsoddi mewn strategaethau economaidd a chymdeithasol bydd yn adeiladu gobaith a dyfodol; eu bod yn lleihau meddwl yn hollfrydol ac yn fyr-dymor - ymarferiadau sydd yn negyddol yn gyffredinol ynghylch hyder, sefydlogrwydd a chydlyniad cymdeithasol.

Blaenoriaeth Ch – Y Cyfryngau

Bod gwleidyddion cymaint â phosib yn gwneud personel y Cyfryngau yn ymwybodol o'u rôl pwysig mewn cynyddu neu lleihau cydlyniad cymunedol, yn dal y Cyfryngau yn atebol am adrodd cyfrifol ac adeiladol fel eu bod hwythau hefyd yn gwella yn hytrach na niweidio cydlyniad cymdeithasol.

Cyswllt Cristnogol

Mae Duw yn ymroddedig i gydlyniad cymdeithasol. Ei unig fwriad ydy bod pawb yn ffynnu mewn teuluoedd, cymunedau a chymdeithasau diogel, cydseiniol, cilyddol a chefnogol. Ym Mathew 22:36-49, mae'r Iesu yn diffinio dysgeidiaethau mwyaf sylfaenol Cristnogaeth - cariad at Dduw ac at gymydog. Diffinia'r Iesu “cymydog” fel “pob person yn gyfartal”. Mae Galatiaid 3.28 ac ysgrythyrau di-rif yn cadarnhau bod pobl yn haeddu cael eu trin yn barchus ac yn haeddu cael pob cyfle, beth bynnag bo eu cefndir ethnig, eu rhyw, eu statws economaidd neu unrhyw nodwedd arall.

Partneriaeth y Llywodraeth- Eglwys

Mae'r llywodraeth a'r eglwys yn ymroddedig i sefydlu a chynnal cydlyniad cymdeithasol, ac mae'r ddau yn chwarae rhan holl-bwysig yn gytun. Felly, ein dyhead cadarn ydy bod awdurdodau y llywodraeth a'r eglwys yn cyd-weithio mewn partneriaeth, tuag at yr uchelgais yma. Mae gan yr eglwys gyfraniad amhrisiadwy i'w roddi, trwy ei chynhwysiad bodlon o bobl lleiafrif ethnig, trwy ei gwasanaeth gwirfoddol enfawr i'r anghenus, trwy ei hymroddiad holl-bresennol ym materion y gymdogaeth a thrwy ei rhaglenni addysg eang, a dylai cael ei chynnwys ar bob lefel yn y broses o wneud polisi perthnasol.

Chwaraeon

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Mae Chwaraeon yn dda i'r Genedl

Tra'n cydnabod bod hamdden, chwaraeon ac ymlacio yn ran o lasbrint gyfannol Duw am iechyd a chysur i'r holl bobl a'r gymdeithas gyfan, rydym eisiau annog pob lefel o'r llywodraeth i ysbrydoli ac adnodi'r genedl i fod yn un iach, cyfrannogol, sydd yn partneri pawb yn ceisio'r un amcanion.

Blaenoriaeth B – Mae Chwaraeon yn unoli mewn amrywiaeth

Dylai'r cyfrifoldeb llywodraethol i ysbrydoli ac adnodi gael ei gyflawni gyda chydraddoldeb tuag at bob ffurf o chwaraeon (proffesiynol/ hanner-proffesiynol/ amatur/ cymdeithasol a hamddenol/ anabl ac abl/ merched a dynion). Yn nhirlun chwaraeon y genedl, dylid anelu at gael cytbwysedd rhwng chwaraeon proffesiynol ac amatur, gan gydnabod bod chwaraeon yn ymwneud â chwarae yn erbyn eraill a gydag eraill, yn gystadleuol ac yn ddi-gystadleuol.

Blaenoriaeth C – Ffitrwydd, chwaraeon a chael gwared o dlodi-plant yn gydgysylltiol

Rhaid ymateb yn strategol yng Nghymru tra'n ceisio anelu at gyfle cyfartal i ymarfer a chwarae gemau bydd yn golygu bod y rhai sydd yn ffurfio polisi yn dal i weld tlodi, yn enwedig ymysg plant, fel rhywbeth i'w gyweirio. Strategaethau a pholisiau i gael eu datblygu sydd yn annog ffitrwydd yn ran o fagwraeth plant a'u cynhaliaeth trwy fywyd.

Blaenoriaeth Ch – Newid yn niwylliant adrodd ar Chwaraeon

Mae eisiau cymhelliad ar gyfer pob math o gyfrwng i ddylanwadu diwylliant mwy cadarnhaol o adrodd ar chwaraeon, yn rhoi mwy o bwyslais ar enghreifftiau o ragoriaeth ym maes chwaraeon, o chwarae moesol teg, o fodolau rôl cadarnhaol, ac o lwyddiant yn wyneb adfyd. Dylid annog y math o ddiwylliant adrodd, sydd yn bwrpasol o gadarnhaol, a gafwyd gan y cyfryngau yn Gemau Llundain 2012, yn hollol wahanol i'r adroddiadau prif ffrwd wythnosol. Mae'r rhan helaeth o'r newyddiaduraeth arferol yn canolbwyntio ar wendidau arwyr ym meysydd chwaraeon ac ymddigiad anfoesol. Annogir ffurfwyr polisi i gymhell y cyfryngau i anelu at ddiwylliant o newyddion da sydd yn adrodd y newyddion am chwaraeon yn gadarnhaol.

Cyswllt Cristnogol

Prin ydy'r deunydd sydd yn cyfeirio'n uniongyrchol at chwaraeon yn y Beibl. Yn y Testament Newydd mae pob cyfeiriad yng nghyswllt y gornestau athletau Groegaid. Mae'r Apostol Paul yn cyfeirio'n arbennig at y gemau ac at gystadlu. O dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, mae'r awdur beiblaidd yn cymharu Cristnogaeth â chwaraeon ac yn pwysleisio'r gwersi a ellir eu casglu oddiwrth profiad athletwyr ei oes. O ystyried y prinder o destunau ysgrythurol, mae angen esboniadaeth gyfrifol, dilys o chwaraeon (dull o ddehongli) sydd yn creu dealltwriaeth o chwaraeon fel:

Rhodd gan Dduw/ rhan o gread Duw/ cyfle i addoli/ modd i garu ein cymydog/ modd o gael ein profi yn foesol/ cyfle i dystoliaethu ac i genhadu/ rhywbeth pwysig a di-bwys ar yr un pryd.

Nid arwyddocâd pennaf unigolyn yn y pen draw.

Y Trydydd Sector

Cyflwyniad

Mae'r "Trydydd Sector" yn derm cydnabyddedig rhyngwladol. Yn aml mae'r Sector yn cael ei gyfeirio at fel y "Sector Gwirfoddol". Mae'n cynnwys:

1. Gwirfoddolwyr
2. Cyfundrefnau e.e. WCVA
3. Asiantaethau e.e. WRVS
4. Grwpiau ymgyrchu
5. Y Celfyddydau a chymdeithasau diwylliannol
6. Cymdeithasfeydd cymunedol wedi ei seilio o amgylch lleoliada bro.

Mae gan pob un o'r rhestr uchod ymglymiad â grwpiau ffydd, efallai fel unigolion, asiantaethau neu eglwysi (gweler Gweini a WCVA, 2008 *Faith in Wales: counting for communities*).

Mae yn 'sector nodweddiadol sydd yn gwneud cyfraniad enfawr i les cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, ac amgylcheddol Cymru' (gweler WCVA *Third Sector statistical resource 2013*).

Nid yn unig eraill y mae gwirfoddoli yn elwa ond hefyd gall ddarparu elwau i'r gwirfoddolwyr, er enghraifft trwy gyfathrach cymdeithasol, ennill hyder, gwelliannau iechyd, datblygiad o sgiliau a phrofiad gwaith (gweler Rochester, C. Et al 2012 *Volunteering and Society in the 21st century. Basingstoke: Palgrave Macmillan*).

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Awdurdodi a Chynnal y Trydydd Sector

1. Cadarnhau ac atgyfnerthu annibynniaeth y Trydydd Sector.
2. Cydnabod y Trydydd Sector fel partner cydradd â'r sectorau Preifat a Statudol.
3. Ymgynghori'n reolaidd â'r Sector, gan gydnabod a gwneud defnydd o'i medrusrwydd a'i gwybodaeth sylfaenol pan yn ffurfio polisi.
4. Hwyluso'r mynediad i'r Sector i bob person trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant ar y modd i gael cyllid a'r modd y gellir ennill rheolaeth y Sector.
5. Sefydlu dosbarthiad lleol o gyllid annibynnol o'r Sectorau Preifat a Statudol, er enghraifft trwy alluogi, hybu ac annog Cistiau Cymunedol Rhanbarthol lle mae arian ar gyfer achosion elusengar yn cael eu gosod a'u dosbarthu ag atebolrwydd lleol.

Blaenoriaeth B – Cynhalioldeb yn yr hir dymor

1. Cydnabod a defnyddio beth sydd yn gweithio'n barod a chynnal beth sydd yn gweithio'n dda.
2. Hwyluso'r llif rhydd o syniadau dros y Trydydd Sector, yn galluogi datblygaid ymarfer dda.
3. Hybu datblygiadau newydd, derbyn risg a dysgu oddiwrth fethiant. Defnyddio grantiau fel catalyddion.
4. Helpu asiantaethau'r Trydydd Sector i groesi'r bont i mewn i fenter cymdeithasol.

Blaenoriaeth C – Cyfraniad i'r Trydydd Sector yn seiliedig ar ffydd

1. Cydnabod bod y Sector Gwirfoddol sydd yn seiliedig ar ffydd yn ran annatod o'r Trydydd Sector. Mae wedi cyfrannu at ddatblygiad a ffyniant y Sector ac mae'n dal i wneud hynny.
2. Gweithio'n agos gyda a chynnal cyfundrefnau ac asiantaethau sydd yn parhau i fod yn fynegiant o weithrediadau wedi eu seilio ar werthoedd ffydd er enghraifft Care for the Family, Ymddiriedaeth Trussell (Banciau Bwyd).
3. Annog y nifer fawr o unigolion o'r cymunedau ffydd, sydd yn cyfrannu o fewn y Trydydd Sector fel cyflogedigion a gwirfoddolwyr ac sydd yn cyfrannu i gymdeithas yn y modd yma

- oherwydd eu gwerthoedd yn seiliedig ar ffydd.
4. Cydnabod y nifer fawr o bobl o ffydd sydd yn 'hapddalwyr' yn y Trydydd Sector fel derbynnnyddion o'i wasanaethau. Dylid ystyried eu barn er mwyn galluogi bod mynegiant o ffydd yn cael ei gynnal a'i ddatblygu o fewn y Sector.

Cyswllt Cristnogol

Mae "rhoddi" yn agwedd o gymeriad Duw ac yn egwyddor sylfaenol o fywyd Cristnogol.

'Rhowch, ac fe roir i chwi, fesur da, wedi ei wasgu i lawr a'i ysgwyd ynghyd nes gorlifo a rhoir yn eich côl; oherwydd â'r mesur y rhowch y rhoir i chwi yn ôl.' (Luc 6 :38 , Y Beibl Cymraeg Newydd)

Mae Gweddî'r Arglwydd (EIN Tad) yn ein atgoffa nad ydym yn byw ar ein pennau ein hun. Mae eisiau i ni ofidio am fudd y man lle'r ydym yn byw (Jeremeia 29:7).

'Oherwydd ei waith Ef ydym, wedi ein creu yng NghristIesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau. (Effesiaid 2:10).

Fel pobl o ffydd, ceisiwn wneud cyfraniad cadarnhaol ac arbennig i bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ynghylch y Trydydd Sector.

Trafnidiaeth

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth A – Trafnidiaeth Cyfrannol i Gymru

Dylai'r rhwydwaith drafnidiaeth gael ei gweld fel darpariaeth cenedlaethol cymdeithasol a allai gael ei marchnata trwy gyhoeddusrwydd a thocynnu. Dylir cyflwyno'r fenter i gael 'Cerdyn Deallus' ('Smart Card') a fyddai'n dderbyniol yn gyffredinol ar gyfer trafndiaeth lleol ar lefel genedlaethol. Dylem annog datblygu llwybrau cerdded a beicio fel rhan o'r strategaeth cyfannol.

Mae gan Gymru adnodd gyfoethog o Reilffyrdd Twristaeth a allai mewn rhai lleoedd cael ei ddefnyddio'n effeithiol fel trafndiaeth gyhoeddus lleol a'i farchnata fel rhan o rwydwaith integredig, yn benodol rheilffyrdd Ffestiniog a'r Ucheldiroedd Cymreig, a rheilffordd Llangollen i Gorwen.

Dylir ystyried cysylltiadau rheilffyrdd realistig pellter-hir ynghlwm wrth llwybrau fferi, yn benodol Harbwr Abergwaun, Doc Penfro a Chaergybi.

Dylir datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Integredig ar gyfer cludiant nwyddau yn ogystal â thrafnidiaeth teithwyr. Mae cludiant nwyddau yn sector sydd yn tyfu i'r rheilffyrdd, a dylai'r cyswllt coll gael ei gydnabod trwy ddarpariaeth cludo nwyddau rheilffyrdd, yn enwedig ym mhorthladdoedd Gorllewin Cymru fel Aberdaugleddau.

Blaenoriaeth B – Trafnidiaeth Cymunedol a Gwledig

Mae'r mynediad i iechyd, cyflogaeth, siopau a gwasanaethau hamdden a chymunedol yn allweddol i iechyd, ffyniant a chynladwyedd economaidd cymdeithasoedd gwledig.

Dylid edrych ar ddarpariaeth gofalus o wasanaethau bws gwledig i redeg yn brydlon a gosod cosbau - a chynnig arian yn ôl i'r teithwyr - lle mae yna fethiant cyson i drosglwyddo amserlen yr hysbyseb.

Tra bod cymunedau gwledig yn dibynnu ar eu gwasanaethau bws cymorthdal, mae'n rhaid gofyn os byddai cyfle i gyllido Bysiau Mini Cymunedol yn rhedeg dan arolygaeth clymblaid o grwpiau gwirfoddol lleol (er enghraifft WRVS, sefydliadau ieuencid, eglwysi ac ymddiriedolaethau iechyd lleol).

Fe all Ymddiriedolaethau Bws Mini Lleol wella'n sylfaenol y dewisiadau teithio sydd gan bobl mewn cymunedau gwledig, gan gydrannu bysiau mini unigol i ddefnydd ehangach. Rydym yn argymhell bod y gwaith gwych sydd wedi cael ei gyflawni yn Sir Benfro yn cael ei ddynodi fel meincnod hyrwyddo trafndiaeth cyrraeddadwy, cynladwy lleol i drafnidiaeth cymunedol.

Blaenoriaeth C – Buddsoddiad mewn Cysylltiadau Draws Cymru

Dylir gwella'r cysylltiadau ffyrdd strategol rhwng y Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin lle nad oes dewis arall o rheilffyrdd realistig. Cydnabyddir y gallai gosod ffyrdd osgoi yn sensitif a strategol adfer canolfannau trefi, yn enwedig Talgarth. Gallai cefnffyrdd wella amserau teithiau a diogelwch.

Blaenoriaeth Ch – Treth Teg o'r Defnydd o Ffyrdd

Gorfodir canran sylweddol o'r boblogaeth yng Nghymru wledig i wneud teithiau eang o bellter mawr i gael gwaith a gwasanaethau alweddol. Tra'n cydnabod bod polisi trethu yn nwylo Llywodraeth San Steffan, anogwn fod ystyriaeth yn cael ei roddi i'r dylanwad y mae treth tanwydd a treth ffyrdd yn cael ar fusnesau ac unigolion mewn cymunedau gwledig ac hefyd datblygu strategaeth yn addas i Gymru a allai cael ei weithredu 'os a phryd'.

Blaenoriaeth D – Maes Awyr Caerdydd

Mae'n allweddol i fusnes rhyngwladol a thwristiaeth bod gan Gymru cyswllt awyr strategol sydd yn gysylltiedig â gweddill Cymru a De Orllewin Lloegr. Gyda trydaneiddio'r rheilffyrdd yn Ne Cymru, dylir ddarparu, fel blaenoriaeth arwyddocaol reilffordd (llwythau trwm neu ysgawn) o'r maes awyr hyd at y Dwyrain a'r Gorllewin.

Dylir ategu at hyn gwelliannau i'r mynediaid i'r maes awyr.

Blaenoriaeth Dd – Datganoliad Pellach o Strategaeth Trafnidiaeth

Dylir archwilio'r Cytundeb Datganoli er mwyn asesu ymhellach os byddai Cyfrifoldebau dros Datganoliad Trafnidiaeth yn mynd i elwa economi Cymru a rhoi mwy o ymreolaeth ynghylch Polisi Trafnidiaeth a Chyllido yr un modd â'r Llywodraeth Albanaidd.

Cyswllt Cristnogol

i. Cynhwysedd a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Mae Cristnogion yn cael eu annog i ymddwyn yn gyfiawn, caru trugaredd a cherdded yn wylaidd gyda'u Duw. Mae'r ddarpariaeth o drafnidiaeth a'r mynediad i drafnidiaeth yn fwy na mater o ddewis personol. Mae yn fater o gyfiawnder cymdeithasol. Yn gynyddol, mae hyn yn wir wrth inni fynd yn boblogaeth mwy oedrannus, a fel mae'n trefi a dinasoedd yn cynyddu mewn poblogaeth.

Mae darpariaeth trafndiaeth da yn anghenrheidiol er mwyn mynediad i waith, gofal iechyd, i berthnasau ag addoliad.

Mae llawer o bobl yn gorfod colli eu trwyddedau ac yn ffeindio eu bod yn gaeth i'r tŷ neu yn ddibynnol ar eraill.

Gellir ysgogi twristiaeth a thwŷ yn yr economi trwy ddarpariaeth effeithiol o drafnidiaeth.

ii. Stiwardiaeth Amgylcheddol

Mae Cristnogion yn cael eu annog i ymddwyn fel stiwardiaid o'r planed. Mae'r gweithrediad ymarferol o hyn yn sicrhau nad yw adnoddau'r ddaear yn cael eu gor-ddefnyddio am elw hunanol, ond yn cael eu defnyddio'n gyfrifol a'u rhannu'n eang ar gyfer defnydd da cyffredinol gan holl bobl Duw.

Mae cadwraeth o adnoddau, lleihad o'r nwy CO2 ac allyriannau eraill, a'r amdiffyniad o leoedd gwyrdd oll yn ran o gynllunio drafnidiaeth cyfrifol.

Dylai blaenoriaethau fod yn cydbwysu'r angen i amddiffyn yr amgylchedd â'r angen am ddarpariaeth o wasanaethau effeithiol.

iii. Adeiladu'r Gymuned

Roedd y Cristnogion cynnar yn cyfuno adnoddau ac yn byw fel cymuned. Mae rhannu trafndiaeth yn hybu sgwrsio a chymdeithas, yn lleihau ynisigrwydd cymdeithasol a galluogi canolfannau gwledig i lewyrchu, galluogi'r mynediad i gyfleusterau lleol. Mae astudiaethau diweddar yn dangos bod gwasanaethau bws yn chwarae rôl holl-bwysig mewn cludo pobl i ganol trefi er mwyn gweithio, siopa a chwrdd, i gael mynediad i wasanaethau a defnyddio cyfleusterau adloniant.